



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Gofynion ar gyfer cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon ysgol mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru



Gwybodaeth

Dogfen wybodaeth rhif: 129/2013

Diwygiwyd: Rhagfyr 2013

Gofynion ar gyfer cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon ysgol mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru

- Cynulleidfa** Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC); darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA); Cyngor y Prifysgolion ar gyfer Addysgu Athrawon Cymru (UCET Cymru); Estyn; y cynghorau addysgu cyffredinol; hyfforddeion sy'n dilyn cyrsiau HCA; pawb sy'n ystyried derbyn HCA; awdurdodau lleol; ysgolion; cymdeithasau proffesiynol ac undebau athrawon; adrannau addysg y llywodraeth ganolog; partiön eraill sydd â diddordeb.
- Trosolwg** Mae'r gofynion darparu cyrsiau HCA yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ddarparwyr HCA o ran y modd y maent yn cynllunio eu rhaglenni, ac yn eu hannog i wneud mwy o ddefnydd o farn broffesiynol. Pwrpas y canllawiau hyn yw helpu'r darparwyr i arfer y farn hon ac i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd ar gyfer datblygu a gynigir gan y gofynion. Mae'n ceisio helpu pawb sy'n ymwneud â HCA i ddeall nodau a chwmpas y gofynion.
- Camau i'w cymryd** Mae'r ddogfen hon yn berthnasol i unrhyw un sy'n ymwneud â HCA, gan gynnwys hyfforddeion, darparwyr hyfforddiant a'r rhai sy'n cyflogi ac yn cefnogi Athrawon sydd Newydd Gymhwys. Dylai pawb sy'n ymwneud yn uniongyrchol â HCA a'r gwaith o gynllunio cyrsiau gael gweld y ddogfen hon a bod yn ymwybodol o'r cefndir statudol.
- Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Y Gangen Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon a Chofrestru
Yr Is-adran Datblygiad Proffesiynol Parhaus a Safonau Ymarferwyr
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffon: 029 2082 5838 neu 029 2082 6085
Ffacs: 029 2082 6109
e-bost: teachingenquiries@cymru.gsi.gov.uk
- Copïau ychwanegol** Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

**Dogfennau
cysylltiedig**

Dod yn Athro Cymwysedig: Llawlyfr Canllawiau (2009) Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif: 017/2009 (2009)

Safonau Statws Athro Cymwysedig 2009 (2009 Rhif: 25) (2009)

Meini prawf ar gyfer Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (2013 Rhif: 17)

Cynllun Hyfforddi Athrawon ar sail Cyflogaeth yng Nghymru 2012 (2012 Rhif: 49)

Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012 (2012 Rhif: 724)

Rheoliadau Addysg (Diwygiadau i Reoliadau ynghylch Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) (Cymru) 2007 (2007 Rhif: 2811)

Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Diwygio) (Cymru) 2008 (2008 Rhif: 215)

Rheoliadau Addysg (Gwaith Penodedig a Chofrestru) (Cymru) 2010 (2010 Rhif: 2710)

Cynnwys

Cyflwyniad	1
G1: Gofynion mynediad i hyfforddeion	4
G1.1 Y gallu i fodloni'r Safonau	5
G1.2 a G1.3 Safonau TGAU gofynnol	7
G1.4 Bod yn addas i addysgu	10
G1.5 Defnyddio'r Saesneg	13
G1.6 Asesu sgiliau llythrennedd a rhifedd	14
G1.7 Gofynion o ran gradd	16
G1.8 Cyfweiliadau	19
G2: Hyfforddi ac asesu	21
G2.1 Cynllun y rhaglen	22
G2.2 Asesu	24
G2.3 Anghenion unigol	26
G2.4 Ystod oedran	28
G2.5 Asesu sgiliau llythrennedd a rhifedd yn barhaus	31
G2.6 Amser yn yr ysgol	32
G2.7 Lleiafswm y gweithgarwch hyfforddi	36
G2.8 Hyfforddiant ar addysgu llythrennedd a rhifedd	37
G2.9 Proffil Dechrau Gyrfa ac ymsefydlu	39
G2.10 Amddiffyn plant	42
G3: Rheoli'r bartneriaeth HCA	44
G3.1 Gweithio mewn partneriaeth i gynnig HCA	45
G3.2 Cytundebau partneriaeth	47
G3.3 Partneriaeth effeithiol	49
G4: Sicrhau ansawdd	50
G4.1 Cydymffurfio	51
G4.2 Adnoddau	52
G4.3 Safoni asesiadau hyfforddeion	53
G4.4 Gwella drwy safoni	55
G4.5 Gwerthuso	56
G4.6 Meincnodi	57

Cyflwyniad

Bwriad yr adran hon o'r Llawlyfr yw egluro'r Gofynion ar gyfer Cyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA) a meithrin dealltwriaeth gyffredin drwy hynny ymysg yr holl ddarparwyr a phartneriaid. Gallai'r canllawiau hyn fod o ddefnydd i hyfforddeion hefyd.

Mae'r Gofynion ar gyfer Darparu Cyrsiau HCA wedi'u rhannu'n

bedair adran:

G1: Gofynion mynediad i hyfforddeion: nodir y gofynion mynediad ar gyfer yr holl gyrsiau HCA sydd wedi'u hachredu ynghyd â manylion y meini prawf ar gyfer dethol sydd i'w defnyddio gan yr holl ddarparwyr. Safonau sylfaenol yw'r gofynion mynediad a'r gofynion dethol yng nghyswllt hyfforddeion. Efallai y bydd meini prawf ychwanegol gan wahanol sefydliadau HCA y byddant yn dymuno eu defnyddio a chânt wneud hynny ar yr amod bod y safonau sylfaenol wedi'u bodloni.

G2: Hyfforddi ac asesu: mae hwn yn rhestru'r gofynion sylfaenol ar gyfer yr holl fathau o gyrsiau, gan gynnwys yr amser y mae'n rhaid i hyfforddeion ei dreulio yn yr ysgol.

G3: Rheoli'r bartneriaeth HCA: nodir y gofynion sy'n ymwneud â'r bartneriaeth rhwng ysgolion a sefydliadau addysg uwch neu ddarparwyr eraill. Dyma'r sylfaen i gyfraniad hollbwysig yr ysgolion a'r lleoliadau eraill i HCA.

G4: Sicrhau ansawdd: nodir y trefniadau y mae'n rhaid i'r darparwyr eu rhoi ar waith i sicrhau bod yr hyfforddiant o safon uchel a'i fod yn cael ei adolygu'n rheolaidd, a bod sylfaen gadarn i'r broses o fodloni Safonau Statws Athro Cymwysedig (SAC).

Er mwyn adlewyrchu'r Gofynion, mae pedair rhan i'r canllawiau (G1 i G4). Ceir rhagymadrodd cyffredinol ar ddechrau pob rhan, ac adrannau wedyn ar y Gofynion unigol neu'r parau o Ofynion cysylltiedig. Nodir y Gofynion yn y pennawd, ac mae'r canllawiau sy'n ei ddilyn yn ymdrin fel arfer â:

- nod a chwmpas y Gofyniad/Gofynion;
- lle bo'n berthnasol, rhagor o ffynonellau gwybodaeth;
- cwestiynau neu faterion y gallai'r darparwyr ddymuno eu hystyried wrth adolygu eu hyfforddiant i sicrhau ei fod yn bodloni'r Gofynion.

Cefndir

Mae Gofynion Darparu Cyrsiau HCA yn rhan o'r Meini Prawf ar gyfer Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Ysgol gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ac yn pennu'r hyn a ddisgwylir gan yr holl ddarparwyr sydd wedi'u hachredu i gynnig HCA. Mae'r Gofynion hyn yn berthnasol i'r holl fathau o ddarpariaeth sydd wedi'i hachredu.

Y 'darparwyr' yw sefydliadau addysg uwch (sefydliadau AU). Bydd yr holl ddarparwyr

yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion, a gall 'ysgolion' gynnwys sefydliadau addysg bellach a lleoliadau blynyddoedd cynnar lle gall athrawon dan hyfforddiant ddangos eu bod yn bodloni'r Safonau. Gall y 'llwybrau' fod yn rhai i raddedigion neu israddedigion, yn rhai amser llawn neu ran-amser, a gallant gynnwys dysgu o bell a llwybrau hyblyg eraill. Fodd bynnag, byddant i gyd yn arwain at ennill SAC; a bydd yr holl ddarparwyr a'u darpariaeth yn ddarostyngedig i drefniadau sicrhau ansawdd i sicrhau eu bod yn ateb y Gofynion hyn.

Bydd Estyn yn ystyried a yw'r darparwyr yn ateb y Gofynion hyn wrth arolygu eu darpariaeth. Mae Estyn yn rhoi manylion am ei ddull o wneud hynny mewn dau gyhoeddiad o'i eiddo, sef y *Fframwaith Arolygu Cyffredin a'r Arweiniad ar Arolygu Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon*. Mae cyhoeddiadau Estyn i'w cael ar ei wefan www.estyn.gov.uk. Bydd yn rhaid i'r darparwyr gadw cofnodion i ddangos sut y maent yn sicrhau eu bod yn ateb y Gofynion.

Nid yw'r ddarpariaeth HCA drwy gynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru (ar raglenni fel y Rhaglen Athrawon Graddedig) yn ddarostyngedig ar hyn o bryd i ofynion achredu CCAUC, gan gynnwys y gofynion ar gyfer cyrsiau HCA a nodir yn y canllawiau hyn. Mae gan y cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth ei ofynion penodedig ei hun ar gyfer darparu hyfforddiant o dan y cynllun.

Mae angen i'r darparwyr fod yn ymwybodol o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 sy'n disodli'r ddeddfwriaeth wrth-wahaniaethol flaenorol ac yn ei chyfuno mewn un Deddf. Gwnaeth y Ddeddf gyflwyno mesurau newydd sydd â goblygiadau uniongyrchol i sefydliadau AU.

Mae'r Ddeddf yn cwmpasu gwahaniaethu ar sail oedran, anabledd, aillbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Yn y Ddeddf, gelwir y categorïau hyn yn 'nodweddion gwarchoddedig'.

Mae'n rhoi dyletswydd ar y sector cyhoeddus (y cyfeirir ati fel dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus), gan gynnwys sefydliadau AU, i gymryd camau i:

- ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth;
- hybu cyfle cyfartal rhwng y rheini sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rheini nad ydynt yn rhannu nodwedd;
- hybu cysylltiadau da rhwng y rheini sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rheini nad ydynt yn rhannu nodwedd.

Mae dyletswydd cydraddoldeb y gwasanaeth cyhoeddus wedi'i seilio yng Nghymru ar ddyletswyddau cydraddoldeb sy'n berthnasol i Gymru. Mae'r dyletswyddau hyn yn rhoi arweiniad i sefydliadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ar gyflawni canlyniadau positif drwy amcanion cydraddoldeb sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

I gyflawni'r dyletswyddau penodol, bydd gofyn i sefydliadau AU Cymru:

- greu sylfaen dystiolaeth sy'n berthnasol i'w swyddogaethau (gan gynnwys gwybodaeth am swyddi);
- ymgysylltu â staff, myfyrwyr a phobl eraill;
- asesu effaith polisiau ac arferion;
- datblygu amcanion ar gyfer gwahaniaethau o ran cyflogau;
- datblygu amcanion cydraddoldeb;
- adrodd ar gydymffurfiaeth â'r ddyletswydd;
- ymgorffori cydraddoldeb ym mhob swyddogaeth.

Mae'r eithriadau i'r darpariaethau gwahaniaethu ar gyfer ysgolion a nodwyd mewn deddfwriaeth flaenorol – megis cynnwys y cwricwlwm, addoli ar y cyd a derbyniadau i ysgolion un rhyw ac ysgolion sydd â chymeriad crefyddol – wedi'u hailadrodd yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Gellir cael rhagor o wybodaeth, gan gynnwys canllawiau technegol ar gyfer Cymru, oddi wrth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn www.equalityhumanrights.com.

Dogfennau a ddisodlwyd

Mae'r rhan o'r llawlyfr *Dod yn Athro Cymwysedig: Llawlyfr Canllawiau* sy'n ymwneud â safonau Statws Athro Cymwysedig (SAC) yn parhau'n ddilys a chyfeirir ati drwy gydol y ddogfen hon. Bydd yn parhau mewn grym nes bod diweddariad wedi'i gyhoeddi. Mae Rhan 2 y llawlyfr, sef y Gofynion, bellach wedi'i disodli.

Diwygiadau arfaethedig pellach i'r Gofynion

Ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad ar y trefniant a fyddai'n cymryd lle'r Meini Prawf ar gyfer Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA) gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru 2006, a fyddai'n cyflwyno gofynion diwygiedig ar gyfer darparu cyrsiau HCA yng Nghymru, cytunodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau â chynnig i ohirio cyflwyno dau ofyniad diwygiedig penodol ar gyfer cael mynediad i Raglenni HCA ym mlwyddyn academaidd 2014/15.

Mae hyn yn gysylltiedig â gofynion statudol G1.2 a G1.3 Safonau TGAU Gofynnol lle mae gofyn bod pob ymgeisydd wedi cyrraedd safon sy'n gyfwerth â gradd B TGAU mewn Mathemateg a Saesneg i gael mynediad i gyrsiau HCA o flwyddyn academaidd 2014/15 ymlaen, a gofyniad statudol G2.6 a fydd yn cynyddu'r isafswm amser y mae athrawon dan hyfforddiant ar raglenni ôl-radd yn ei dreulio'n hyfforddi mewn ysgolion o 18 wythnos i 24 wythnos.

Bydd fersiwn ddiwygiedig a mwy diweddar o'r ddogfen hon yn cael ei pharatoi er mwyn adlewyrchu'r newidiadau a fydd yn cael eu cyflwyno o flwyddyn academaidd 2014/15 ymlaen.

G1: Gofynion mynediad i hyfforddeion

Nod y Gofynion ynghylch mynediad i hyfforddeion yw sicrhau bod y rhai a dderbynnir i gyrsiau HCA yn addas i ddod yn athrawon a'u bod yn meddu ar y gallu i fodloni'r Safonau SAC.

Mae penderfyniadau ynghylch derbyn ymgeiswyr yn parhau'n fater i'r darparwyr: amcan y canllawiau a roddir yma yw helpu'r darparwyr a'u partneriaid i sicrhau bod eu gweithdrefnau derbyn mor effeithiol a chyson a theg ag y bo modd. Nid yw'r broses o ddethol hyfforddeion yn wyddor fanwl ac ni all warantu llwyddiant wedyn, ond drwy roi sylw manwl i'r gwaith o ddethol o blith yr ymgeiswyr gellir sicrhau'r lleiaf posibl o wastraff ac aflwyddiant yn y cyrsiau. Mae'n bwysig ystyried rhinweddau personol yn ogystal â chymwysterau academaidd, a maint profiad yr ymgeisydd a'i gyflawniadau fel tystiolaeth o'i allu i fodloni'r Safonau.

Safonau sylfaenol yw'r gofynion ar gyfer derbyn a dethol ymgeiswyr. Efallai y bydd meini prawf ychwanegol gan wahanol sefydliadau HCA y byddant yn dymuno eu defnyddio a chânt wneud hynny ar yr amod bod y safonau sylfaenol wedi'u bodloni. Bydd y darparwyr yn dymuno sicrhau bod yr hyfforddeion wedi'u hysbysu'n llawn am y gofynion ar gyfer mynediad, gan gynnwys unrhyw ofynion ychwanegol a bennir gan ddarparwr penodol.

Bydd y darparwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau statudol o ran oed, crefydd a chred (neu ddiffyg crefydd a chred), anabledd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol a chydarddoldeb hiliol, ac o ran gofynion yr iaith Gymraeg. Bydd yn rhaid iddynt sicrhau bod eu polisi derbyn yn hybu cyfle cyfartal ac nad yw'n gwahaniaethu yn erbyn unrhyw grŵp o ymgeiswyr posibl. Oherwydd hynny, dylent werthuso a monitro effaith eu polisi derbyn yn rheolaidd.

G1.1 Y gallu i fodloni'r Safonau

Y gofyniad

Rhaid i bob darparwr sicrhau bod gan bob hyfforddai y gallu i fodloni'r Safonau SAC erbyn diwedd eu cwrs a'u bod yn meddu ar y rhinweddau personol a deallusol priodol i fod yn athrawon.

Nod a chwmpas

Amcan G1.1 yw sicrhau y bydd y darparwyr, wrth ddethol, yn canolbwyntio'n bennaf ar asesu gallu'r ymgeiswyr i fodloni'r Safonau SAC. Rhaid i'r darparwyr ystyried holl ystod yr wybodaeth, y sgiliau a'r rhinweddau sydd gan yr ymgeisydd, a barnu a fydd yn gallu bodloni'r Safonau o fewn y cyfnod a bennir ar gyfer ei hyfforddiant.

Mae'n bosibl y ceir nifer cynyddol o ymgeiswyr a fydd yn ceisio credyd am gyflawniadau blaenorol a'r rheini ag amryw o gymwysterau academiaidd, proffesiynol neu alwedigaethol. Mae G2.3 (ystyried anghenion hyfforddi unigol) a G2.6 (credyd am brofiad blaenorol mewn ysgolion) yn galluogi'r darparwyr i addasu eu darpariaeth i ddiwallu anghenion unigol ac i eithrio unigolion rhag rhai o ofynion y rhaglen os oes tystiolaeth eu bod eisoes wedi bodloni rhai o'r Safonau, yn llawn neu'n rhannol. Drwy ddefnyddio'r Safonau fel meincnod wrth ddethol, bydd y darparwyr yn gallu casglu a chofnodi tystiolaeth o gyflawniadau blaenorol. Gall hynny fod o gymorth i ganfod a diwallu anghenion unigol. Bydd y Safonau ar werthoedd proffesiynol (S1.1 i 1.3), cynhwysiant (S3.1.2, S3.1.3, S3.3.6, S3.3.14) a gwybodaeth am bynciau (S2.1), a nodwyd yn *Dod yn Athro Cymwysedig: Llawlyfr Canllawiau (17/2009)*, yn arbennig o berthnasol wrth asesu rhinweddau personol a deallusol yr ymgeiswyr. Mae Rhan 1 y llawlyfr (Safonau ar gyfer SAC) yn parhau mewn grym a bydd yn cael ei diweddarau rywbryd yn y dyfodol.

Efallai y bydd darparwyr rhaglenni i israddedigion yn dymuno ystyried rhoi credyd academiaidd am brofiad perthnasol, fel y gall ymgeiswyr addas gwblhau eu gradd dros gyfnod byrrach. (Rhaid i ddarparwyr rhaglenni i raddedigion fod yn sicr bod y rhai a dderbynnir yn meddu ar radd neu gymhwyster cyfwerth adeg eu derbyn i HCA – gweler y canllawiau ar G1.7)

Ffynonellau gwybodaeth

Mae canllawiau ar y Safonau SAC yn adran gyntaf *Dod yn Athro Cymwysedig: Llawlyfr Canllawiau (17/2009)*. Mae'r rhan hon o'r llawlyfr yn parhau mewn grym.

Ceir gwybodaeth ar wefan UCAS (www.ucas.ac.uk) am ddulliau o asesu dysgu blaenorol, gan gynnwys dysgu drwy brofiad, ar gyfer credyd academiaidd.

Cwestiynau i'w hystyried gan y darparwyr

- A yw'r ffynonellau tystiolaeth ar gyfer G1.1 (er enghraifft, gwybodaeth o ffurflenni cais, adroddiadau gan ganolwyr, cyngor gan ysgolion, canlyniadau unrhyw brofion neu dasgau ar gyfer mynediad, portffolios yr ymgeiswyr, cyfweiliadau) yn rhoi inni'r hyn y mae arnom ei angen i asesu potensial yr ymgeiswyr?

- A yw ein dulliau o asesu rhinweddau personol a deallusol yr ymgeiswyr wrth eu derbyn yn fodd effeithiol o ragweld eu gallu i gyflawni'r Safonau wedyn?
- A oes arnom angen gweithdrefnau gwahanol i asesu cyflawniadau blaenorol ac i addasu'r ddarpariaeth er mwyn eu datblygu?

G1.2 a G1.3 Safonau TGAU gofynnol

Y gofynion

Rhaid i bob darparwr sicrhau bod pob hyfforddai sy'n cael lle wedi cyrraedd safon gyfwerth â gradd C yn arholiadau TGAU Saesneg a Mathemateg. O flwyddyn academaidd 2014/15, bydd gofyn bod pob ymgeisydd sy'n cael lle wedi cyrraedd safon gyfwerth â gradd B TGAU yn y pynciau hyn).

Rhaid i bob darparwr sicrhau bod pob hyfforddai sy'n cael lle ar gwrs hyfforddi cynradd neu Gyfnodau Allweddol 2/3 wedi cyrraedd safon gyfwerth â gradd C mewn pwnc gwyddonol yn yr arholiadau TGAU.

Nod a chwmpas

Nod y Gofynion hyn yw sicrhau bod y rhai a dderbynnir i gyrsiau HCA yn cyrraedd safon sylfaenol o ran eu cyrhaeddiad addysgol. Yn achos hyfforddeion cynradd neu Gyfnodau Allweddol 2/3, mae'r gofyniad i feddu ar lefel dderbyniol o wybodaeth am bynciau wedi'i ehangu i gynnwys gwyddoniaeth, pwnc craidd yn y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Nid yw'r Gofynion yn pennu unrhyw bynciau eraill ar lefel TGAU, neu Safon Uwch, ond bydd darparwyr rhaglenni i israddedigion yn pennu eu gofynion mynediad eu hunain ar gyfer cyrsiau gradd. Yn yr un modd, efallai y bydd darparwyr rhaglenni i raddedigion yn mynnu y bydd ymgeiswyr yn dangos safonau, lefelau neu fathau uwch o gyrhaeddiad. Ceir canllawiau yn G1.7 isod ar ofynion gradd ar gyfer rhaglenni i raddedigion.

Mae Gofynion G1.2 ac G1.3 yn egluro mai'r safon, ac nid y dystysgrif, yw'r hyn sy'n cyfrif. Os yw ymgeiswyr yn addas fel arall ond eu bod, am ba bynnag reswm, heb ennill gradd C mewn TGAU, gellir rhoi cyfle iddynt ddangos eu bod yn gallu bodloni'r safon ofynnol, er hynny, un ai drwy sefyll prawf cyfatebol o eiddo'r darparwr neu drwy gynnig tystiolaeth arall o'u cyrhaeddiad. Os yw ymgeisydd wedi ennill cymwysterau nad ydynt yn gymwysterau TGAU, bydd angen i ddarparwyr sicrhau eu bod yn gyfwerth â TGAU o ran eu cynnwys a'r galw amdanynt.

Mae cymwysterau sgiliau allweddol ar lefel 2 ar yr un lefel cyrhaeddiad â gradd C TGAU yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol. Fodd bynnag, nid ydynt yn cyfateb i TGAU o ran eu cynnwys, ac mae'n debyg y bydd angen i'r darparwyr chwilio am dystiolaeth ychwanegol o ehanger gwybodaeth a dealltwriaeth yr ymgeiswyr sydd â thystysgrifau sgiliau allweddol ond sydd heb radd C neu uwch mewn TGAU Saesneg a Mathemateg.

Ers mis Medi 2010, treialwyd 'pâr cysylltiedig' o TGAU Mathemateg sef *Defnyddio Mathemateg a Cymhwyso Mathemateg* mewn nifer o ganolfannau ar draws Cymru a Lloegr. Cynlluniwyd y ddau gymhwyster i gael eu haddysgu gyda'i gilydd ac i roi profiad mathemategol mwy cyfoethog i ddysgwyr na'r hyn y gellir ei roi drwy ddilyn TGAU Mathemateg sengl. At ddibenion perfformiad ysgol, mae gradd C yn y naill gymhwyster neu'r llall yn y 'pâr cysylltiedig' yn gyfwerth gradd C yn y cymhwyster sengl. Ond bydd gofyn bod yr ymgeiswyr wedi cwblhau *Defnyddio Mathemateg a Cymhwyso Mathemateg* er mwyn sicrhau eu bod wedi cwmpasu'n llawn Rhaglen Astudio'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer Mathemateg.

O fis Medi 2010 ymlaen, bydd ystod newydd o gymwysterau TGAU Saesneg ar gael yn Lloegr y dyfernir y tystysgrifau cyntaf ar eu cyfer yn 2012. Y rhain yw: Saesneg, Iaith Saesneg a Llenyddiaeth Saesneg. Tra ystyrir y bydd ymgeiswyr sydd wedi cael gradd C neu uwch mewn Saesneg a/neu iaith Saesneg TGAU wedi ateb y gofyniad, dylai'r darparwyr chwilio am ragor o dystiolaeth o gyflawniad yn y Saesneg os yw'r ymgeiswyr dim ond wedi cael TGAU gradd C neu uwch, neu gyfwerth, mewn llenyddiaeth Saesneg.

Ffynonellau gwybodaeth

Mae'r Coleg Cenedlaethol ar gyfer Addysgu ac Arwain, sy'n rhan o'r Adran Addysg, yn gallu darparu rhestr o gymwysterau a dderbynnir fel arfer fel rhai sydd gyfwerth â chymwysterau TGAU. Gall y Ganolfan Wybodaeth Genedlaethol ar gyfer Cydnabod Cymwysterau Academaidd (NARIC) gynnig cyngor ar y cymwysterau tramor cyfwerth i'r rhai sy'n tanysgrifio i'w gwasanaeth. Mae'r Coleg Cenedlaethol ar gyfer Addysgu ac Arwain yn tanysgrifio i NARIC, a gall eu Llinell Gwybodaeth am Addysgu (0800 389 2500) edrych yng nghronfa ddata NARIC ar gyfer ymgeiswyr unigol ar gais. Mae modd cysylltu â NARIC yn uniongyrchol hefyd ar: UK NARIC, Ecctis Ltd, Oriel House, Oriel Road, Cheltenham GL50 1XP, ffôn 0871 330 7033, ffacs 0871 330 7005, gwefan: www.naric.org.uk.

Mae Sgiliau Hanfodol Cymru yn cynnwys tri maes sgiliau unigol (Cyfathrebu; Cymhwyso Rhif; a TGCh) a safonau / cymwysterau ar gael ar bob lefel o fewn y sgiliau hyn o Lefel Mynediad i Lefel 4. Lanswyd Sgiliau Hanfodol Cymru ym mis Medi 2010 gan ddisodli'r Sgiliau Allweddol cyfredol Cyfathrebu, Cymhwyso Rhif a TGCh a'r Sgiliau Sylfaenol Llythrennedd Oedolion, Rhifedd Oedolion a TGCh Sgiliau am Oes o'r dyddiad hwnnw. Mae Sgiliau Allweddol Ehangach (Datrys Problemau; Gweithio Gydag Eraill; a Gwella Dysgu a Pherfformiad Personol) ar gael ar Lefel 1 i 4 ac yn asesu gallu'r ymgeisydd i ddefnyddio eu sgiliau mewn gwahanol ffyrdd ac mewn gwahanol gyd-destunau. Mae Llywodraeth Cymru'n adolygu Sgiliau Hanfodol Cymru a'r Sgiliau Allweddol Ehangach o ganlyniad i'r Adolygiad o Gymwysterau

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/qualificationsinwales/revofqualen/?lang=cy>).

Bydd cyfres newydd o gymwysterau'n cael eu datblygu ar gyfer mis Medi 2015 ymlaen. Ceir rhagor o wybodaeth ar Sgiliau Hanfodol Cymru a Sgiliau Allweddol Ehangach ar wefan Llywodraeth Cymru yn:

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/qualificationsinwales/qualificationtypesinwales/essentialskillswales/?lang=cy>

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/qualificationsinwales/qualificationtypesinwales/widerkeyskills/?lang=cy>.

Ceir gwybodaeth am Sgiliau Hanfodol Cymru a Sgiliau Allweddol Ehangach, a phwyntiau perfformiad a sgoriau trothwy ar wefan DAQW:

<http://www.daqw.org.uk/PublicQualificationList.aspx>

Cwestiynau i'w hystyried gan y darparwyr

- A oes ar yr aelodau staff sy'n gyfrifol am ddethol angen rhagor o wybodaeth, arweiniad neu hyfforddiant i'w galluogi i ganfod a yw'r ymgeiswyr yn bodloni'r safonau gofynnol ar gyfer TGAU?
- A oes angen i ni ddatblygu profion cywerthedd neu ddull arall o wirio a yw ymgeiswyr yn bodloni'r safonau ar gyfer TGAU?
- A yw ein gweithdrefnau dethol yn hybu cyfle cyfartal ac yn osgoi gwahaniaethu?

G1.4 Bod yn addas i addysgu

Y gofyniad

Rhaid i bob darparwr sicrhau bod systemau ar waith i gael gafael ar wybodaeth ynghylch a oes gan yr hyfforddeion sy'n cael lle gefndir troseddol a allai eu rhwystro rhag gweithio gyda phlant neu bobl ifanc, neu fel athrawon; a sicrhau nad yw'r hyfforddeion sy'n cael lle wedi cael eu heithrio rhag addysgu neu weithio gyda phlant yn y gorffennol.

Nod a chwmpas

Nod y Gofyniad hwn yw amddiffyn plant a phobl ifanc rhag hyfforddeion a allai achosi perygl o niwed iddynt am fod eu hymddygiad blaenorol yn dangos eu bod yn anaddas i addysgu.

Nid yw darpariaethau Deddf Ailsefydlu Troseddwy'r 1974 yn berthnasol i addysgu. Effaith hyn yw y gellir gofyn i ymgeiswyr am le ar gwrs hyfforddiant athrawon a oes ganddynt unrhyw gollfarnau neu rybuddiadau ni waeth pa mor bell yn ôl y rhoddwyd y gollfarn neu'r rhybuddiad neu ba mor amherthnasol y gallai ymddangos. Dylai darparwyr HCA barhau â'r arfer o ofyn ar y dechrau i ymgeiswyr gydnabod neu ddatgelu unrhyw gollfarnau a gawsant.

Mae darparwyr HCA yn gyfrifol am sicrhau y cynhelir archwiliad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i gefndir pawb sy'n cael lle ar eu rhaglenni HCA (ar gyfer plant, oedolion neu'r ddau).

Ffynonellau gwybodaeth

Gwnaeth Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 newid y trefniadau ar gyfer ymchwilio i gefndir troseddol ymgeiswyr a chanfod a ydynt wedi'u gwahardd rhag addysgu. Unodd y Swyddfa Cofnodion Troseddol gynt â'r Awdurdod Diogelu Annibynnol i greu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Gelwir gwiriadau CRB yn wiriadau DBS bellach.

O 17 Mehefin 2013, bydd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ond yn rhoi tystysgrifau i ymgeiswyr. Bydd angen i gyflogwyr ofyn i'r ymgeiswyr am gael gweld eu Tystysgrif DBS.

Bydd angen i unrhyw un (gan gynnwys hyfforddeion) sy'n gweithio mewn rolau lle byddant mewn cysylltiad agos â phlant ac oedolion agored i niwed heb oruchwyliaeth (a ddiffinnir fel 'Gweithgarwch a Reoleiddir' mewn deddfwriaeth), gael gwiriad DBS manylach. Bydd Tystysgrifau Datgeliad Manylach yn dangos manylion y collfarnau cyfredol a rhai sydd wedi darford, rhybuddiadau, ceryddon a rhybuddion o Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu, yn ogystal â gwybodaeth arall sy'n cael ei dal gan heddluoedd lleol.

Rhaid i hyfforddeion sy'n ymgymryd â 'Gweithgaredd a Reoleiddir' gael gwiriad gan y DBS er mwyn sicrhau nad ydynt wedi'u cynnwys ar 'Restrau Gwahardd' y DBS o unigolion sydd wedi'u gwahardd yn gyfreithiol rhag gweithio gyda phlant a grwpiau agored i niwed. Mae'n erbyn y gyfraith i gyflogwyr gyflogi rhywun sydd ar un o'r rhestrau hyn neu ganiatáu iddynt wirfoddoli ar gyfer gwaith o'r math hwn.

Dylid gofyn i fyfyrwyr drefnu Datgeliad ar ôl i'r sefydliad benderfynu cynnig lle i'r ymgeisydd a chyn i'r cwrs ddechrau. Hwyrach y bydd sefydliadau yn dymuno cynnig lle yn amodol ar gael archwiliad boddhaol.

Cyfrifoldeb y sefydliad yw penderfynu a ddylid derbyn ymgeisydd i gwrs

yng ngoleuni unrhyw gofnod troseddol a all fod gan y person. Wrth gwrs, fodd bynnag, bydd angen i sefydliadau ystyried barn AALLau a Phenaethiaid yr ysgolion y byddant fel arfer yn anfon athrawon dan hyfforddiant atynt, a'r math o drosedd y byddent yn ei hystyried yn annerbyniol.

Dylid barnu addasrwydd ymgeisydd ar sail canlyniadau'r holl archwiliadau perthnasol i'w gefndir a wnaethpwyd cyn ei benodi. Nid yw'r ffaith fod gan y person gofnod troseddol yn ei wneud yn anaddas o reidrwydd i weithio gyda phlant neu bobl ifanc. Ni ddylid diystyru rywun oherwydd bod gwybodaeth wedi'i datgelu ar dystysgrif DBS neu wiriad CRB blaenorol.

Rhaid i gyflogwyr benderfynu ynghylch addasrwydd unigolyn i weithio gyda phlant gan ystyried dim ond y troseddau hynny a allai fod yn berthnasol i'r swydd neu sefyllfa dan sylw.

Ni all Llywodraeth Cymru gynghori cyflogwyr a ddylent gyflogi person penodol ai peidio. Dylid ystyried nifer o bwyntiau wrth benderfynu ynghylch perthnasedd collfarnau:

- **Natur y drosedd:** Yn gyffredinol, bydd collfarnau sy'n gysylltiedig â throeddau rhywiol neu dreisgar, a throeddau yn ymwneud â chyffuriau yn arwyddion cryf iawn yn erbyn cyflogi person i weithio gyda phlant a phobl ifanc.
- **Natur y penodiad:** Yn aml iawn bydd natur y penodiad yn helpu i asesu perthnasedd y gollfarn. Er enghraifft, byddai throeddau difrifol yn ymwneud â rhyw, trais, cyffuriau neu alcohol yn peri cryn bryder lle byddai swydd yn ymwneud â darparu gofal. Byddai throeddau gyrru neu alcohol yn berthnasol mewn sefyllfaoedd sy'n ymwneud â chludo plant a phobl ifanc.
- **Pa bryd y cyflawnwyd y drosedd:** Gall throeddau a gyflawnwyd sawl blwyddyn yn ôl yn aml iawn fod yn llai perthnasol na throeddau diweddar. Fodd bynnag, mae collfarnau sy'n gysylltiedig â throeddau difrifol yn ymwneud â rhyw neu drais neu droseddau difrifol yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau yn fwy tebygol o beri pryder parhaus na dyweder un achos o anonestrwydd a gyflawnwyd pan oedd y person yn ifanc. Rhaid pwyso a mesur y posibilrwydd ar gyfer ailsefydlu ochr yn ochr â'r angen i amddiffyn plant a phobl ifanc.
- **Amllder troseddu:** Mae cyfres o droseddau dros gyfnod o amser yn fwy tebygol o beri pryder nag un gollfarn fach.

Os bydd Datgeliad yn dangos bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi pennu cyfyngiadau ar gyflogaeth person, ni ddylai'r person mewn unrhyw amgylchiadau gael ei roi mewn swydd a fyddai'n mynd yn groes i'r cyfyngiadau hyn, a dylai'r person cofrestredig hysbysu pennaeth yr ysgol neu brifathro'r coleg ynghylch telerau'r cyfyngiadau ar gyflogaeth y person hwnnw a bennwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Bydd unrhyw un sydd wedi ei wahardd rhag gweithio yn y gwasanaeth addysg oherwydd nad yw ef neu hi yn berson addas a phriodol i gael ei gyflogi fel athro neu athrawes neu i weithio gyda phlant a phobl ifanc, hefyd wedi ei wahardd rhag gwneud unrhyw waith gyda phlant mewn swydd reoleiddiedig fel sy'n cael ei nodi yn adran 36 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000.

Mae'n drosedd i berson sydd wedi ei wahardd ymgeisio, cynnig gwneud, derbyn neu wneud unrhyw waith mewn unrhyw un o'r swyddi rheoleiddiedig a nodir yn y Ddeddf. Mae hefyd yn drosedd i gyflogwr gynnig gwaith mewn swydd reoleiddiedig i unigolyn sydd wedi ei wahardd rhag gweithio gyda phlant, neu i beidio â thynnu unigolyn o'r fath o waith o'r fath, ac yntau'n gwybod am y gwaharddiad. Bydd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn hysbysu'r heddlu os bydd person sydd wedi ei wahardd yn ceisio cael gwaith gyda phlant a phobl ifanc.

Ni ddylai sefydliadau ddatgelu gwybodaeth a geir o Ddatgeliad i drydydd parti megis ysgol neu AALI heb gydsyniad ysgrifenedig y person. Yn unol â thelerau Deddf Heddlu 1997, mae datgelu gwybodaeth o'r fath heb ganiatâd yn drosedd. Rhaid i ddarparwyr hyfforddiant athrawon sicrhau eu bod yn cadw at god ymarfer y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Dylai darparwyr hyfforddiant athrawon sicrhau eu bod wedi gweld tystysgrifau datgelu cyn bod hyfforddeion yn dechrau hyfforddiant mewn ysgol a choleg AB.

Bydd gan benaethiaid ddisgresiwn i ganiatáu i unigolyn ddechrau hyfforddiant mewn ysgol a choleg AB os yw Datgeliad yn yr arfaeth, cyn belled â bod yr hyfforddai'n cael ei oruchwylio'n briodol (yn unol â'r Canllawiau Statudol ar Oruchwylio).

Unwaith y byddant wedi cymhwyso, bydd angen i'r hyfforddeion gofrestru gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CACC) cyn y gallant addysgu mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru. Mae CACC yn cynnal archwiliadau addasrwydd ar bob athro sy'n gwneud cais i gofrestru am y tro cyntaf sy'n galluogi'r Cyngor i wirio cymwysterau; sicrhau nad oes gwaharddiadau na chyfyngiadau ar gyflogaeth; gorchmynion disgyblu na gwaharddiadau; ynghyd â chynnal archwiliad datgelu manwl gan y SCT. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan CACC yn www.gtcw.org.uk/gtcw/cy/qualifications-a-registration.

Cwestiynau i'w hystyried gan y darparwyr

- Sut y byddwn yn delio ag ymgeiswyr sydd â chofnod troseddol nad yw'n gysylltiedig â gweithio gyda phlant nac ag unrhyw un o'r cyfrifoldebau eraill a gyflawnir gan athro?
- Pa aelodau staff y bydd gofyn iddynt gael cydlofnodi ceisiadau i'r Gwasanaeth Datgelir a Gwahardd am ddatgelu cofnodion troseddol?
- Pa drefniadau sydd wedi'u sefydlu pe digwydd oedi wrth dderbyn datgeliadau?
- Sut bydd y gofynion a bennir gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn effeithio ar drefniadau derbyn hyfforddeion?
- A oes gennym drefniadau ar waith i ddelio â hyfforddai sy'n cael ei arestio, sydd yn destun ymchwiliad, sy'n cael ei gyhuddo neu ei gael yn euog o drosedd yn ystod y cyfnod hyfforddiant?

G1.5 Defnyddio'r Saesneg

Y gofyniad

Rhaid i bob darparwr fodloni'i hun bod pob hyfforddai yn gallu darllen yn effeithiol, a'i fod yn gallu cyfathrebu'n glir ac yn gywir drwy gyfrwng y Saesneg, ar lafar ac yn ysgrifenedig.

Nod a chwmpas

Amcan G1.5 yw sicrhau y bydd y darparwyr yn ystyried a yw'r ymgeiswyr yn meddu ar y sgiliau deall a chyfathrebu y mae arnynt eu hangen i gael budd o'u hyfforddiant, i fodloni'r Safonau ac i gyfathrebu'n effeithiol â dysgwyr, staff, rhieni neu ofalwyr ac eraill.

Bydd ymgeiswyr sy'n gallu darllen yn effeithiol yn gallu dangos eu bod yn darllen yn ddeallus a'u bod yn gallu gwneud defnydd o'r hyn y maent yn ei ddarllen. Bydd yr hyfforddeion yn gallu darllen yn ddigon effeithiol fel y bydd modd iddynt ddeall a chymhwyso gwybodaeth o'r mathau o ddeunydd ysgrifenedig a ddefnyddir yn eu hyfforddiant (er enghraifft, codau ymarfer neu strategaethau a chwricwla cenedlaethol). Gallai'r darparwyr asesu gallu ymgeiswyr i ddarllen yn effeithiol ar yr un pryd ag y byddant yn asesu eu Saesneg neu gallent benderfynu derbyn cymwysterau penodol fel tystiolaeth ddigonol o'r gallu i ddarllen yn effeithiol.

Yng nghyd-destun y Gofyniad hwn, mae 'Saesneg' yn disgrifio'r defnydd gramadegol cyffredin sy'n cael ei addysgu fel arfer i'r rhai sy'n siarad Saesneg fel iaith gyntaf neu iaith ychwanegol. Gellir siarad Saesneg â llawer o wahanol acenion. Bydd yn rhaid i athrawon allu defnyddio Saesneg llafar ac ysgrifenedig; ond nid yw'n ofynnol iddynt siarad y naill na'r llall ag unrhyw acen benodol, gyhyd â bod eu Saesneg yn ddealladwy i'r dysgwyr.

Cwestiynau i'w hystyried gan y darparwyr

- A ddylem dderbyn rhai cymwysterau fel tystiolaeth o allu'r ymgeiswyr i ddarllen yn effeithiol? Ai dim ond ymgeiswyr sydd heb y cymwysterau hyn a ddylai orfod cynnig tystiolaeth ychwanegol? Neu a ddylid cymhwyso'r un broses ddethol at bawb sy'n cael ei ystyried, pa un a yw hynny'n cynnwys prawf, neu dasg neu set o gwestiynau mewn cyfweiliad?
- A ddylem gynnig cymorth ychwanegol, cyn neu yn ystod yr hyfforddiant, i ymgeiswyr sy'n ateb y gofynion ar gyfer eu derbyn ond a fyddai'n cael budd o ymarfer pellach ar Saesneg llafar er mwyn sicrhau y bydd y dysgwyr yn gallu eu deall yn rhwydd?
- A yw ein gwybodaeth ar gyfer ymgeiswyr yn egluro y bydd angen iddynt ddangos eu bod yn gallu cyfathrebu mewn Saesneg llafar ac ysgrifenedig cyn y gellir eu derbyn?

G1.6 Asesu sgiliau llythrennedd a rhifedd

Y gofyniad

Rhaid i bob darparwr sicrhau bod yr holl hyfforddeion yn cael eu hasesu i fod â sgiliau llythrennedd a rhifedd personol gweithredol sy'n gymwys mewn cyd-destun addysgu proffesiynol, ac sy'n addas i'r cyfnod a'r pwnc astudio.

Nod a chwmpas

Nod y gofyniad hwn yw cyflwyno trefn orfodol o asesu pob ymgeisydd ar gyfer rhaglenni HCC er mwyn sicrhau eu bod i gyd yn meddu ar sgiliau llythrennedd a rhifedd personol gweithredol sy'n gymwys mewn cyd-destun addysgu proffesiynol. Ym mis Chwefror 2011 amlinellodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau gynllun gweithredu 20 pwynt ar gyfer Addysg yng Nghymru er mwyn codi safonau mewn ysgolion. Roedd llythrennedd a rhifedd yn rhan ganolog o'r cynllun hwn, a chafodd pwynt gweithredu ei gynnwys er mwyn cyflwyno asesiadau statudol o sgiliau llythrennedd a rhifedd personol hyfforddeion HCC a sicrhau bod pob athro cymwysedig yn cael hyfforddiant ar sut i addysgu llythrennedd a rhifedd.

Er oedd darpariaethau yn y Gofynion yn ymwneud ag asesu sgiliau llythrennedd a rhifedd personol yr hyfforddeion ar y cychwyn cyntaf, nid oedd gofyniad penodol ar gyfer y gwaith hwn. Y nod yw adeiladu ar y gwaith asesu a wneir eisoes a chefnogi'r gwaith gan ddarparwyr i symud tuag at safonau asesu cyffredin, drwy wneud newidiadau i'r Gofynion.

Bydd angen i ddarparwyr ystyried a yw'r trefniadau asesu'n deg i bob hyfforddai, yn hybu cyfle cyfartal ac yn osgoi gwahaniaethu, yn enwedig yng ngoleuni'r dyletswyddau a roddir i sefydliadau AU yn Neddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000.

Mae'r Rhaglen Llythrennedd Genedlaethol a'r Rhaglen Rhifedd Genedlaethol yn amlinellu'r camau y bydd Llywodraeth Cymru a'n partneriaid yn eu cymryd i newid safonau rhifedd a llythrennedd dros y bum mlynedd nesaf. Nodir yn y ddwy raglen bod angen diwygio'r gofynion mynediad ar gyfer cyrsiau HCA er mwyn sicrhau bod safon ymgeiswyr newydd yn cael ei chodi a bod gan bob athro newydd sgiliau rhifedd a llythrennedd cymwys.

Mae'r Rhaglen Llythrennedd Genedlaethol yn diffinio llythrennedd fel y defnydd o sgiliau iaith mewn gweithgareddau bob dydd yn yr ysgol, yn y cartref, yn y gwaith ac yn y gymuned. Mae'n golygu defnyddio sgiliau llythrennedd a gwybod sut i ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg. Mae'n disgrifio cyfres o sgiliau, gan gynnwys siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu, sy'n ein galluogi i wneud synnwyr o'r byd o'n cwmpas.

Nid yw wedi'i gyfyngu i fecaneg gallu dadgodio'r geiriau ar dudalen neu ysgrifennu brawddeg sy'n ramadegol gywir, er bod y rhain yn sgiliau hanfodol. Mae'n ymwneud â'r sgiliau y mae eu hangen i ddeall iaith ysgrifenedig ac iaith lafar, dehongli'r hyn sydd wedi'i ysgrifennu neu ei ddweud, a dod i gasgliadau o'r dystiolaeth sydd o'n cwmpas.

Mae hefyd yn ymwneud â'r gallu i gyfathrebu – yn gywir, yn rhugl ac yn ddarbwyllol.

Mae llythrennedd yn seiliedig ar ddatblygu sgiliau darllen, ysgrifennu ac iaith lafar ar draws pob maes pwnc. Bwriedir i'r gydran llythrennedd asesu gallu dysgwyr i ddefnyddio'r sgiliau llafaredd, darllen ac ysgrifennu y maent wedi'u dysgu i gwblhau tasgau a datrys problemau realistig sy'n briodol i'w hoedran.

Mae'r Rhaglen Rhifedd Cenedlaethol yn diffinio rhifedd fel cymhwyso dealltwriaeth fathemategol mewn gweithgareddau bob dydd yn yr ysgol, yn y cartref, yn y gwaith ac yn y gymuned. Mae mwy i rifedd na dim ond addysgu rheolau a gweithdrefnau mathemateg. Fodd bynnag, mae'n hollbwysig bod y technegau mathemategol sylfaenol yn cael eu haddysgu i safon sy'n caniatáu i ddysgwyr fynd i'r afael â phroblemau'r byd go iawn mewn amryw o sefyllfaoedd drwy gymhwyso ymresymu rhifyddol er mwyn cynllunio sut i ddatrys y broblem, ac yna cwblhau'r gweithdrefnau mathemateg i gael hyd i'r ateb. Bydd angen i ddarparwyr ystyried sut i ymdrin â'r ymresymiad hwn wrth asesu sgiliau'r hyfforddeion.

Cwestiynau i'w hystyried gan y darparwyr

- A yw'r safonau asesu yn glir i'r ymgeiswyr?
- A yw'r sgiliau'n berthnasol i'w cyd-destun, sef y gallu i ddysgu?
- Sut gellir datblygu'r asesiad er mwyn cyflwyno trefn asesu barhaus?
- Sut ydym yn sicrhau bod ein gweithdrefnau asesu'n trin pob ymgeisydd yn deg ac yn gyson yn unol â chanllawiau cyhoeddedig, gan hybu cyfle cyfartal ac osgoi gwahaniaethu?

Ffynonellau gwybodaeth

Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, ar wefan Dysgu Cymru (Dogfen Wybodaeth Llywodraeth Cymru – 120/2013. Dyddiad cyhoeddi – Mawrth 2013)

<http://learning.wales.gov.uk/resources/nl/nf/?skip=1&lang=cy>

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/literacynumeracy/numera/cyprogramme/?lang=cy>

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/literacynumeracy/literacy/programme/?lang=cy>

Dyma rai o brif nodweddion y Fframwaith:

Mae'n amlinellu'r sgiliau y disgwylir i ddysgwyr eu datblygu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, o 5 oed i 14 oed a fesul grŵp blwyddyn.

Caiff y Fframwaith ei rannu'n gydrannau ar gyfer llythrennedd a rhifedd sydd hefyd wedi'u rhannu'n llinynnau. Y llinynnau ar gyfer llythrennedd yw llafaredd ar draws y cwricwlwm, darllen ar draws y cwricwlwm ac ysgrifennu ar draws y cwricwlwm. Y llinynnau ar gyfer rhifedd yw datblygu ymresymu rhifyddol, defnyddio sgiliau rhif, defnyddio sgiliau mesur a defnyddio sgiliau data.

G1.7 Gofynion o ran gradd

Y gofyniad

Rhaid i bob darparwr sicrhau bod pob hyfforddai sy'n cael lle ar gyrsiau HCA i raddedigion yn meddu ar radd gyntaf a ddyfarnwyd gan sefydliad addysg uwch yn y Deyrnas Unedig neu gymhwyster cyfwerth.

[Bydd angen i'r ymgeiswyr sy'n meddu ar Radd Sylfaen ategu'r cymhwyster hwn gydag o leiaf 60 credyd ar Lefel 3 mewn Addysg Uwch.]

Nod a chwmpas

Statws graddedig addysgu – Mae'r ddeddfwriaeth ar SAC yn mynnu y bydd gan bawb sy'n llwyddo i gwblhau cwrs hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru radd gyntaf a ddyfarnwyd yn y DU neu gymhwyster cyfwerth. Y bwriad yw sicrhau y byddant wedi cael yr wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau deallusol trosglwyddadwy sy'n gysylltiedig â statws rhywun sydd â gradd. Bydd y rhai sy'n cwblhau rhaglenni HCA i israddedigion yn llwyddiannus yn ennill gradd ac yn bodloni'r Safonau ar gyfer SAC yr un pryd. Bydd gofyn i'r rhai ar raglenni i raddedigion fod wedi ennill cymwysterau ar lefel gradd cyn y gellir eu derbyn i gwrs HCA. Mae cyrsiau ôl-radd yn cynnwys cyrsiau HCA blwyddyn amser llawn, neu gyrsiau cyfwerth rhan amser, sy'n cynnig cymwysterau ar lefelau Tystysgrif Addysg i Raddedigion, Tystysgrif Addysg Broffesiynol i Raddedigion neu'r Diploma Ôl-radd mewn Addysg.

Pynciau gradd – Nid yw'r gyfraith yn mynnu y bydd athrawon yn meddu ar radd mewn pwnc penodol er mwyn addysgu. Y Safonau sy'n pennu'r wybodaeth am bynciau sy'n angenrheidiol i ennill SAC. Rhaid i'r holl hyfforddeion ateb gofynion Safon 2.1, gan gynnwys gwybodaeth a dealltwriaeth am y cwricwla cenedlaethol perthnasol, erbyn iddynt gwblhau eu hyfforddiant. Ond nid oes unrhyw ofyniad statudol i hyfforddeion cynradd feddu ar radd mewn pwnc sydd yn y Cwricwlwm Cenedlaethol. Nid oes gofyniad ychwaith i hyfforddeion uwchradd feddu ar radd mewn pwnc penodol, gyhyd â'u bod yn gallu bodloni'r gofyniad yn Safon 2.1 am wybodaeth am bwnc ar lefel gradd erbyn iddynt gael eu hasesu ar gyfer SAC.

Oherwydd hynny, rhaid i'r darparwyr ystyried holl ystod cyraeddiadau'r ymgeiswyr, ac nid enw eu gradd yn unig. Rhaid iddynt farnu a fydd yr ymgeiswyr, yn y cyfnod a fwriedir ar gyfer hyfforddiant, yn gallu cau unrhyw fwlch rhwng yr wybodaeth am bwnc sydd ganddynt ar adeg eu derbyn, a'r wybodaeth sy'n ofynnol i fodloni Safon 2.1 ar gyfer yr ystod oedran y maent wedi'i ddewis ac unrhyw bwnc/bynciau arbenigol. Gellid cael tystiolaeth o'u gwybodaeth am bwnc ar adeg eu derbyn o ddadansoddiad manwl o gynnwys y radd; o fanylion unrhyw gymwysterau academaidd, proffesiynol neu alwedigaethol eraill; o asesiad o gyflawniadau blaenorol sy'n berthnasol; neu o ymchwil i'w gwybodaeth am bwnc gan y darparwr.

Pynciau arbenigol cynradd – Nid yw Safonau SAC yn mynnu y bydd hyfforddeion cynradd yn cael eu hyfforddi i addysgu pwnc arbenigol, ond anogir darparwyr i gynnig pwnc arbenigol os dymunant, a gallant benderfynu gosod gofyniad derbyn penodol o ran gwybodaeth am bwnc ar gyfer hyn. Fel arall, nid oes gofyniad i gael lefel benodol o wybodaeth am bwnc adeg eu derbyn, ac felly, efallai y bydd

darparwyr yn dymuno canolbwyntio'n fwy ar botensial yr ymgeiswyr i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau gofynnol yn ystod yr hyfforddiant yn hytrach nag ar sicrhau bod ganddynt gorff penodol o wybodaeth adeg dechrau'r cwrs.

Gwybodaeth am gymwysterau ar lefel gradd – Bydd yn rhaid i'r darparwyr sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol am benderfyniadau ar dderbyn ymgeiswyr yn gyfarwydd â'r dewis o gymwysterau a ystyrir fel arfer yn rhai sy'n cyfateb i radd gyntaf neu radd Baglor yn y DU, gan gynnwys cymwysterau a enillwyd mewn gwledydd tramor, cymwysterau proffesiynol neu alwedigaethol, a chymwysterau a enillwyd gan ymgeiswyr hŷn nad ydynt ar gael bellach neu, fel arall, eu bod yn gallu cael cyngor ar y cymwysterau hynny.

Bydd yn rhaid iddynt wybod hefyd am y gwahanol raddau sy'n cael eu dyfarnu gan sefydliadau yn y DU a pha rai sydd ar gyfer ôl-raddedigion a pha rai a ddyfernir ar sail profiad. (Er enghraifft, gradd gyntaf bedair blynedd yw MEng, gradd ymchwil yw BPhil fel arfer, ac mae rhai graddau Meistr a addysgir yn rhai a all fod yn agored i rai sydd heb ennill gradd gyntaf.) Mater i'r darparwr yw penderfynu a ellir ystyried bod cymhwyster yr unigolyn yn cyfateb i radd; mae'n bosibl y bydd darparwyr nad ydynt yn dyfarnu graddau yn dymuno ceisio cyngor gan gyrff sy'n eu dyfarnu.

Graddau Sylfaen – Dyfarniad ar lefel ganolraddol yw'r Radd Sylfaen rhwng Safon Uwch, neu NVQ3, a lefel gradd gyntaf. Mae'r radd yn gysylltiedig â gwaith, mae'n gwrs dwy flynedd o hyd o leiaf ac mae'n werth 240 credyd ar Lefel 1 a 2 mewn Addysg Uwch. Ceir amryw o systemau ar gyfer mesur credyd, ond er mwyn cael gradd Anrhydedd rhaid cael 360 credyd fel arfer, gyda 120 ohonynt ar Lefel 3 AU (Lefel 6 y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol/Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru). Fel arfer bydd angen o leiaf 300 credyd ar gyfer gradd Gyffredin neu radd basio. Felly, bydd angen i ymgeiswyr sydd â Gradd Sylfaen ddangos eu bod wedi cael o leiaf 60 credyd arall ar lefel 3 AU er mwyn ateb y gofynion derbyn i'r cwrs HCA i raddedigion.

Cymwysterau galwedigaethol – Rhaid rhoi ystyriaeth debyg i gymwysterau galwedigaethol ar Lefel 4 yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol. Bydd angen credydau ychwanegol ar Lefel 3 mewn Addysg Uwch ar y rhai sydd wedi ennill NVQ4 os nad ydynt yn meddu ar gymwysterau eraill ar lefel gradd.

Ffynonellau gwybodaeth

Gellir cael canllawiau defnyddiol ar y prif gymwysterau proffesiynol a dderbynnir fel arfer fel rhai sy'n cyfateb i radd, gan gynnwys y rhai sy'n berthnasol i feysydd pwnc uwchradd penodol, oddi wrth adrannau pwnc mewn sefydliadau AU (er enghraifft, ieithoedd modern, peirianeg, cyfrifiadureg, gwyddoniaeth, astudiaethau busnes) ac oddi wrth y gyrff proffesiynol perthnasol. Mae'n bosibl y bydd sefydliadau AU yn gallu darparu gwybodaeth hefyd am gynnwys rhaglenni gradd i helpu'r darparwyr i ymchwilio i'r wybodaeth am bwnc sydd gan yr ymgeiswyr.

Mae cronfa ddata NARIC yn cynnwys gwybodaeth am raddau mewn gwledydd tramor a'u cywerthedd i raddau'r DU. Mae modd cysylltu â NARIC yn uniongyrchol yn: UK NARIC, Ecctis Ltd, Oriol House, Oriol Road, Cheltenham GL50 1XP, ffôn 0871 330 7033, ffacs 0871 330 7005, gwefan www.naric.org.uk.

Gellir cael gwybodaeth am Raddau Sylfaen yn www.foundationdegree.org.uk.

Cyhoeddwyd *Y Fframwaith ar gyfer cymwysterau addysg uwch yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon* am y tro cyntaf yn 2001 a'i ddiwygio yn 2008 gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (ASA). Mae'n disgrifio'r cymwysterau addysg uwch a ddyfernir gan gyrff dyfarnu graddau'r DU ar bum lefel – o rif 4 i rif 8, gyda graddau baglor ar lefel 6, graddau meistr ar lefel 7 a graddau doethur ar lefel 8.

Mae disgrifiad yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd o'r cymhwyster Gradd Baglor gydag Anrhydedd yn cynnig meincnod defnyddiol i'r rhai sy'n ystyried derbyn ymgeiswyr sydd heb radd Baglor gydag Anrhydedd a enillwyd yn y DU. Mae'n disgrifio'r lefel o wybodaeth, dealltwriaeth, gallu dadansoddol a sgiliau trosglwyddadwy a ddisgwylir gan un sydd wedi ennill gradd Anrhydedd. Er nad oes gofyniad statudol ar athrawon i feddu ar radd Anrhydedd yn hytrach na gradd Gyffredin neu radd Baglor ddiddosbarth, mae darparwyr yn ystyried fel arfer fod gradd Anrhydedd yn ddymunol ar gyfer cyrsiau HCA i raddedigion. Mae'r ddogfen fframwaith ar gyfer AU yn cynnwys tabl sy'n dangos y pum lefel ac mae ar gael ar wefan yr ASA yn <http://www.qaa.ac.uk/Publications/InformationAndGuidance/Pages/The-framework-for-higher-education-qualifications-in-England-Wales-and-Northern-Ireland.aspx>.

Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru yw'r fframwaith cymwysterau cenedlaethol ar gyfer Cymru a chafodd ei fabwysiadu gan Lywodraeth Cymru yn 2002. Mae'r fframwaith yn cynnwys yr holl ddysgu mewn Addysg Uwch, yr holl gymwysterau a reoleiddir gan gynnwys cymwysterau cyffredinol, addysg a hyfforddiant galwedigaethol cychwynnol, addysg a hyfforddiant galwedigaethol parhaus a dysgu gydol oes gyda sicrwydd ansawdd. Disgrifir y cymwysterau yn ôl lefelau o lefel Mynediad i raddau Doethuriaeth lefel 8, deilliannau dysgu a meini prawf asesu a gwerthoedd credyd. Gellir gweld gwerthoedd credyd nodweddiadol ar gyfer lefelau 4-8 y fframwaith ar dudalennau 118-119 o lawlyfr Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru, a cheir copi o'r ddogfen ar wefan Llywodraeth Cymru yn <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/qualificationsinwales/creditqualificationsframework/publications/handbook/?lang=cy> neu ar y wefan www.cqfw.net.

Bwriedir i'r canllawiau ategu'r fframwaith ar gyfer cymwysterau addysg uwch yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon a gyhoeddir gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd.

Cwestiynau i'w hystyried gan y darparwyr

- A yw'r rhai sy'n gyfrifol am benderfynu ynghylch derbyn ymgeiswyr wedi cael yr wybodaeth a'r cyngor y mae arnynt eu hangen am gymwysterau sy'n cyfateb i raddau yn y DU?
- A oes ganddynt ddigon o wybodaeth am bynciau fel y gallant farnu a yw'r ymgeiswyr yn debygol o ateb y gofynion am wybodaeth sydd yn y Safonau?

G1.8 Cyfweiliadau

Y gofyniad

Rhaid i bob darparwr sicrhau bod pob hyfforddai sydd wedi cael lle ar gwrs wedi cymryd rhan mewn cyfweiliad grŵp neu gyfweiliad unigol fel rhan o'r broses ddethol.

Nod a chwmpas

Mae'r cyfweiliad yn cynnig cyfle i ymchwilio i agweddau ar allu'r ymgeiswyr na ellir eu cyfleu'n llawn mewn cais ysgrifenedig – er enghraifft, eu rhinweddau personol a'u gallu i fodloni'r Safonau sy'n ymwneud â gwerthoedd ac arferion proffesiynol. Mae hefyd yn gyfle i asesu gwybodaeth yr ymgeiswyr am eu pwnc a'u gafael ar Saesneg llafar. Yn ogystal â hynny, gellir asesu gafael yr ymgeiswyr ar Saesneg ysgrifenedig; eu gallu i ddarllen yn effeithiol; ac, os oes angen, eu gallu i gyrraedd safon TGAU Gradd C mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.

Efallai y bydd y darparwyr yn dymuno i'r ymgeiswyr gymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr ysgol neu weithgareddau i ddatrys problemau damcaniaethol. Os gallai'r ymgeiswyr fod yn gymwys i'w heithrio rhag rhai o Ofynion y Rhaglen oherwydd cyflawniadau blaenorol, gallai'r darparwyr ymestyn proses y cyfweiliad er mwyn pennu graddau'r eithrio posibl, er enghraifft, drwy arsylwi yn yr ystafell ddosbarth, trafodaethau ar bortffolios proffesiynol a thrafodaethau ar gyflawniadau blaenorol. Yn achos yr holl ymgeiswyr, gallai'r darparwyr ddymuno ystyried sut y gellid defnyddio gwybodaeth a geir mewn cyfweiliadau i ganfod a diwallu anghenion unigol yn ystod hyfforddiant.

Ar gyfer yr holl raglenni, rhaid i'r darparwyr sicrhau bod yr ysgolion sy'n bartneriaid iddynt yn cymryd rhan yn y cyfweiliadau. Mae eu profiad proffesiynol yn gallu bod yn arbennig o werthfawr wrth farnu a yw'r ymgeiswyr yn meddu ar yr holl rinweddau y mae eu hangen arnynt i fod yn athro llwyddiannus. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd yn rhaid cynnal cyfweiliadau pan nad oes aelodau staff ar gael o'r ysgolion sy'n bartneriaid i'r darparwyr, ond dylai'r darparwyr a'u partneriaid chwilio bob amser am fodd i gynnwys athrawon cymwysedig gweithredol yn y cyfweiliad.

Bydd darparwyr am sicrhau y bydd y broses gyfweld yn hyrwyddo cyfle cyfartal ac yn osgoi gwahaniaethu. Efallai y bydd angen hyfforddi'r staff sy'n ymwneud â chyfweiliadau er mwyn hybu eu hymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â chydaddoldeb a diogelu.

Ffynonellau gwybodaeth

Cod Ymarfer ar y Ddyletswydd i Hybu Cydraddoldeb Hiliol a chanllawiau cysylltiedig ar gyfer ysgolion a sefydliadau addysg bellach ac uwch 2002, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: www.equalityhumanrights.com.

Mae'r dogfennau canlynol i gyd ar gael drwy gysylltu â Llinell Gymorth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol – 0845 6046610 neu 0845 6046620 (ffôn testun) neu oddi ar wefan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol:

- Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995.
- Cod Ymarfer y Comisiwn Hawliau Anabledd 2004: Cyflogaeth a Galwedigaeth.
- Dyletswydd 2006 y Comisiwn Hawliau Anabledd i Hybu Cydraddoldeb i Bobl Anabl: Cod Ymarfer Statudol, Cymru a Lloegr.
- Cod Ymarfer 2006 y Comisiwn Hawliau Anabledd ar gyfer Darparwyr Addysg ôl-16 a Gwasanaethau Cysylltiedig.

Cwestiynau i'w hystyried gan y darparwyr

- A yw ein gweithdrefnau cyfweld yn profi'n effeithiol o ran dethol pobl sy'n gallu bodloni'r Safonau SAC?
- Beth yw'r ffordd orau inni gynnwys athrawon cymwysedig gweithredol o'r bartneriaeth yn y cyfweiliadau?
- A oes arnom angen dulliau cyfweld newydd i ystyried cyflawniadau blaenorol yr ymgeiswyr?
- I ba raddau y gellir canfod anghenion hyfforddi unigol drwy gyfweiliadau?
- Sut gallwn sicrhau bod ein gweithdrefnau cyfweld yn trin pob ymgeisydd yn deg ac yn gyson yn unol â chanllawiau cyhoeddedig, yn hyrwyddo cyfle cyfartal ac yn osgoi gwahaniaethu?

G2: Hyfforddi ac asesu

Nod y Gofynion hyn yw sicrhau y bydd hyfforddeion yn cael yr hyfforddiant y mae arnynt ei angen i'w galluogi i fodloni'r Safonau, y byddant yn cael eu hasesu yn erbyn yr holl Safonau, ac na fyddant ond yn ennill SAC os ydynt yn bodloni pob un ohonynt.

Bydd y darparwyr yn adolygu eu darpariaeth yn gyson fel rhan o'u gweithdrefnau arferol i sicrhau ansawdd a bydd ganddynt eu trefniadau eu hunain ar gyfer cytuno ar newidiadau a'u monitro.

G2.1 Cynllun y rhaglen

Y gofyniad

Rhaid i bob darparwr gynllunio cynnwys, strwythur a threfniadau darparu'r hyfforddiant er mwyn galluogi'r hyfforddeion i ddangos eu bod wedi bodloni'r Safonau SAC.

Nod a chwmpas

Nod y Gofyniad hwn, sy'n sail i'r holl Ofynion eraill ar hyfforddi ac asesu, yw sicrhau y caiff hyfforddeion y cyfleoedd dysgu y mae arnynt eu hangen i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau fel y gallant ddangos eu bod yn bodloni'r Safonau. Mae hefyd angen i'r hyfforddiant ddarparu cyfleoedd ar gyfer asesu (gweler G2.2) a diwallu anghenion unigol (gweler G2.3).

Mae rôl yr ysgolion a'r lleoliadau eraill (gweler G2.6 a G3) yn hollbwysig o ran cynnig yr ystod o brofiad y mae ar hyfforddeion ei angen, ond ni fydd pob ysgol neu leoliad yn gallu addysgu mewn o leiaf ddau Gyfnod Allweddol (gweler G2.4), neu yn yr holl ystod gallu, neu addysgu amrywiaeth o ddisgyblion. Oherwydd hynny, bydd angen i'r darparwyr weithio gydag amryw o ysgolion ac, mewn rhai achosion, gyda lleoliadau eraill, er mwyn darparu ystod digonol o brofiad.

Wrth wneud hynny, bydd yn rhaid i'r darparwyr gydnabod bod ysgolion y tu allan i Gymru yn dra annhebygol o allu cynnig cyfleoedd i roi sylw i Safonau y mae agwedd Gymreig benodol iddynt a bydd yn rhaid iddynt ddewis ysgolion gan gadw hynny mewn golwg. Er mwyn i hyfforddeion sicrhau SAC, bydd y darparwyr yn ymwybodol o'r ffaith y bydd yn rhaid i bob unigolyn sydd wedi cychwyn cwrs hyfforddiant cychwynnol athrawon ers 1 Medi 2008 fod wedi ymgymryd â'u profiad addysgu ymarferol, yn gyfan gwbl neu'n rhannol mewn ysgol, ysgol annibynnol neu sefydliad arall (ac eithrio uned cyfeirio disgyblion) yng Nghymru. Ceir mwy o fanylion am y gofyniad hwn dan G2.6 (*Amser yn yr Ysgol*).

Efallai y bydd angen i Ddarparwyr HCA hefyd drefnu gydag ysgolion sy'n bartneriaid iddynt i gynnig cyfleoedd i addysgu mewn pâr neu dîm gydag athrawon profiadol fel y bydd yr hyfforddeion yn gallu cael y profiad y mae arnynt ei angen (gweler G3.1). Efallai y bydd angen iddynt hefyd greu mathau eraill o gyfleoedd dysgu i ategu'r hyn y gall partneriaid lleol ei ddarparu. Gallai'r rhain gynnwys, er enghraifft, ymweliadau, sgysiau, fideos, ymarferion astudiaethau achos, dynwarediadau, chwarae rôl a darllen cyfeiriedig.

Mae angen hefyd i'r hyfforddiant baratoi'r hyfforddeion i fodloni'r Safonau ar wybodaeth a dealltwriaeth (S2.1-7). Yn achos y rhan fwyaf o'r hyfforddeion, bydd angen i'r darparwyr gynnig rhaglenni a ddysgir i ddatblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol. Fodd bynnag, mae'r Gofynion yn caniatáu i'r darparwyr gymryd dysgu blaenorol i ystyriaeth (gweler hefyd G2.3 a G2.6).

Ffynonellau gwybodaeth

Bydd y canllawiau ar y Safonau yn y Llawlyfr hwn yn helpu'r darparwyr i adolygu cynnwys, strwythur a threfniadau darparu'r hyfforddiant i sicrhau ei fod yn galluogi'r

hyfforddeion i ddangos eu bod yn gallu bodloni'r Safonau. Ceir canllawiau pellach ar werthuso ac adolygu o dan G4.

Cwestiynau i'w hystyried gan y darparwyr

- A allwn ddangos bod ein hyfforddiant yn dilyn y Safonau SAC a bod pob elfen yn cyfrannu at ddatblygu gallu'r hyfforddeion i gyrraedd neu ragori ar y Safonau?
- A yw ein hyfforddiant yn rhoi sylw i'r holl Safonau SAC?
- A ydym yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng hyfforddiant mewn ysgolion neu leoliadau eraill a hyfforddiant mewn man arall (mewn sefydliad addysg uwch neu ganolfan arall)?
- A oes unrhyw elfennau yn yr hyfforddiant nad ydynt yn cyfrannu'n ddigonol at gyrraedd y Safonau SAC?
- A yw'r hyfforddeion yn cael cyfleoedd yn ystod eu hamser yn yr ysgol i geisio cyrraedd y Safonau SAC a dangos eu bod wedi'u bodloni?

G2.2 Asesu

Y gofyniad

Rhaid i bob darparwr sicrhau bod cyraeddiadau hyfforddeion yn erbyn y Safonau SAC yn cael eu hasesu'n rheolaidd ac yn gywir, a bod yr holl hyfforddeion wedi cael eu hasesu a'u bod yn bodloni'r Safonau SAC cyn rhoi cadarnhad i'r corff perthnasol y gellir eu hysbysu eu bod yn athrawon cymwysedig.

[Adeg cyhoeddi hwn, y corff perthnasol o dan Reoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol] (Cymru) 2012 yw Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru. Gall Llywodraeth Cymru hysbysu pobl eu bod yn athrawon cymwysedig hefyd, ond yn ôl y trefniadau y cytunwyd arnynt, y Cyngor sy'n cael delio â phob achos heblaw pan fydd amgylchiadau eithriadol.]

Nod a chwmpas

Nod y Gofyniad hwn yw sicrhau mai dim ond y rhai sy'n bodloni'r Safonau a gaiff SAC, a bod y dyfarniadau hynny ynghylch eu gallu i fodloni'r Safonau'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn a gasglwyd drwy gydol eu rhaglen. Bydd yn rhaid i'r darparwyr ystyried eu dull o fonitro cynnydd hyfforddeion, o roi adborth iddynt, o adolygu a diwallu eu hanghenion unigol, ac o'u hannog i ymgymryd â'r cyfrifoldeb dros eu datblygiad eu hunain.

Mae'n debyg y bydd yn rhaid i'r rhai sy'n asesu'r hyfforddeion gael eu gweld yn bodloni'r Safonau mewn mwy nag un cyd-destun er mwyn gallu bod yn ffyddiog yn eu gallu i'w bodloni'n llwyr – er enghraifft, gallent ddymuno gweld hyfforddai'n addysgu dosbarth gwahanol, neu'n addysgu deunydd i'r dosbarth sy'n gofyn dull gweithredu gwahanol, er mwyn cael bod yn sicr o'u gallu i fodloni'r Safonau ar gyfer addysgu. Fodd bynnag, gellir grwpio Safonau fel bod modd defnyddio un achlysur i asesu gallu'r hyfforddai o dan sawl Safon. Er enghraifft, byddai arsylwi ar wers sydd wedi'i chynllunio a'i haddysgu gan yr hyfforddai, a'i thrafod wedyn, yn gallu cynnig cyfle i asesu grŵp o Safonau gan gynnwys agweddau ar werthoedd proffesiynol, gwybodaeth am bwnc, cynllunio, addysgu ac asesu. Ar y llaw arall, bydd yn rhaid i aseswyr ystyried tystiolaeth arall ar gyfer rhai Safonau – er enghraifft, gwaith ysgrifenedig, portffolios sy'n cofnodi cyflawniadau blaenorol, cyflwyniadau neu gyfraniadau i diwtorial, neu adroddiadau arsylwi. Mater o farn broffesiynol yw penderfynu a yw'r hyfforddai'n bodloni'r Safonau, drwy ystyried perfformiad yr hyfforddai yn ei gyfanrwydd a'r holl dystiolaeth berthnasol arall.

Bydd yn bwysig asesu'r holl waith, boed hwnnw'n waith academiaidd neu'n waith proffesiynol, yn gyson ac yn gywir (gweler hefyd y canllawiau ar asesu allanol, G4.3). Efallai y bydd angen hyfforddiant ar rai aelodau staff i'w galluogi i asesu'r hyfforddeion yn gyson ac yn gywir. Bydd y darparwyr yn dymuno ystyried hefyd a yw'r trefniadau asesu'n deg â'r holl hyfforddeion, a ydynt yn hyrwyddo cyfle cyfartal ac yn osgoi gwahaniaethu, yn enwedig yng ngoleuni'r dyletswyddau sydd gan ysgolion a sefydliadau addysg uwch o dan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000.

Ffynonellau gwybodaeth

Mae'r canllawiau ar y Safonau'n cynnig awgrymiadau manylach ar y modd y gallai'r

hyfforddeion roi tystiolaeth i ddangos eu bod yn bodloni'r Safonau.

Cwestiynau i'w hystyried gan y darparwyr

- A ydym yn rhoi adborth adeiladol i hyfforddeion ar eu cynnydd yn erbyn y Safonau SAC?
- A yw'r cyfleodd ar gyfer asesu'n cynnwys yr holl Safonau SAC?
- A oes digon o dystiolaeth gan yr aseswyr i allu barnu'n gywir ynghylch gallu'r hyfforddeion i fodloni'r Safonau SAC mewn amryw o gyd-destunau?
- A ydym yn asesu grwpiau o Safonau SAC gyda'i gilydd fel na fydd ein dull gweithredu'n un digyswllt?
- Pa Safonau SAC y gellir dangos tystiolaeth ar eu cyfer yn llwyr neu'n rhannol yn yr ystafell ddosbarth neu leoliadau addysgol eraill? Pa Safonau y gellir eu dangos drwy ddulliau eraill, gan gynnwys aseiniadau ysgrifenedig?
- A ydym yn monitro cynnydd yr hyfforddeion ac yn addasu'r hyfforddiant os oes angen?
- A yw'r holl aelodau staff sy'n ymwneud ag asesu wedi'u hyfforddi a'u datblygu fel y gallant asesu'n gywir ac yn gyson yn erbyn y Safonau SAC?

G2.3 Anghenion unigol

Y gofyniad

Rhaid i bob darparwr sicrhau ei fod yn ystyried anghenion hyfforddi unigol.

Nod a chwmpas

Nod y gofyniad hwn yw sicrhau y bydd yr hyfforddeion yn cael y cymorth y mae arnynt ei angen i lwyddo, cyn ac yn ystod eu hyfforddiant. Mae hyn yn cynnwys ystyriaeth i unrhyw gyflawniadau blaenorol a allai gyfiawnhau eu heithrio rhag rhai o Ofynion y Rhaglen, ac i unrhyw anghenion hyfforddi penodol a ganfyddir ar adeg dethol yr hyfforddeion neu wedyn. Bydd yn rhaid i'r darparwyr ddatblygu dulliau o gymryd anghenion unigol i ystyriaeth wrth bennu beth yn union fydd hyd, natur, cynnwys a dull cyflwyno'r hyfforddiant. Nid yw hynny'n golygu y bydd yn rhaid i bob hyfforddai ddilyn rhaglen unigol, oherwydd bydd anghenion llawer ohonynt yr un fath; ond dylai'r holl raglenni fod yn ddigon hyblyg i ddarparu ar gyfer gwahanol anghenion hyfforddi hyd yn oed os yw llawer o'r elfennau'n gyffredin.

Cyflawniadau blaenorol – Bydd llawer o'r ymgeiswyr wedi treulio amser mewn ysgolion a lleoliadau eraill cyn dechrau ar eu hyfforddiant, lle byddant wedi cael cyfleoedd i fodloni rhai o'r Safonau SAC, un ai'n llwyr neu'n rhannol. Dylai pob darparwr ystyried a yw cyflawniadau blaenorol yr ymgeiswyr yn cynnig sail i'w heithrio rhag unrhyw Ofynion yn y Rhaglen gan gynnwys, er enghraifft, peth o'r amser a dreulir yn yr ysgol, neu rai seminarau a addysgir, neu'r angen i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig benodol. Bydd yn rhaid i'r darparwyr fod yn sicr bod cyflawniadau'r hyfforddai'n ddilys a'u bod yn gysylltiedig â gweithgareddau gyda dysgwyr yn yr ystod oedran a'r pwnc/pynciau y mae'r hyfforddai'n paratoi ar eu cyfer.

Bydd ar y rhan fwyaf o'r hyfforddeion angen amser a chymorth i fodloni'r Safonau a bydd angen i lawer ohonynt gwblhau rhaglen hyfforddiant safonol lawn (gweler hefyd G2.6 ar amser a dreulir yn yr ysgol). Er y dylai'r hyfforddeion gael credyd am gyflawniadau dilys a pheidio â gorfod ailadrodd gwaith yn ddiangen, mae hefyd yn bwysig sicrhau y cânt ddigon o amser a chymorth i'w paratoi ar gyfer eu hasesu yn erbyn y Safonau SAC. Ni fyddai'n fuddiol i'r hyfforddeion gael eu rhoi mewn perygl o fethu. Bydd hyd yn oed yr hyfforddeion mwyaf profiadol yn annhebygol o allu dangos eu gallu i addysgu am gyfnod hir a sylweddol (Safon S3.3.11) o fewn llai na chwe wythnos.

Cymorth cyn ac yn ystod y rhaglen – Efallai y bydd ar rai hyfforddeion angen cymorth ychwanegol, er enghraifft, i ddatblygu eu gwybodaeth am bynciau, un ai cyn neu yn ystod y cwrs. Efallai y bydd y darparwyr yn dymuno ymchwilio i wybodaeth yr ymgeiswyr am bynciau yn ystod y broses ddethol a darparu rhestrau darllen, cyrsiau pontio neu ddeunyddiau dysgu o bell ar eu cyfer cyn ac yn ystod eu hyfforddiant. Mae'r canllawiau ar S2 (gwybodaeth a dealltwriaeth) yn delio â'r modd y gellir dangos gwybodaeth am bwnc ym mhob Cyfnod Allweddol.

Ffynonellau gwybodaeth

Bydd y canllawiau ar y Safonau yn y Llawlyfr hwn yn helpu'r darparwyr i ganfod beth y mae'r hyfforddeion wedi'i gyflawni a'r hyn y mae angen iddynt ei

wneud yn rhagor.

Cwestiynau i'w hystyried gan y darparwyr

- Sut y byddwn yn sicrhau bod yr hyfforddiant yn ddigon hyblyg i ddiwallu anghenion unigol?
- Sut y dylem asesu cyflawniadau blaenorol?
- Sut y dylem wirio'r hyn a ddysgwyd drwy brofiad?
- Sut y dylem ymchwilio i wybodaeth am bynciau a gwybodaeth broffesiynol?
- Sut y gallwn ddefnyddio'r asesiad cychwynnol o anghenion i ddatblygu hyfforddiant sy'n diwallu anghenion unigol?

G2.4 Ystod oedran

Y gofyniad

Rhaid i bob darparwr baratoi'r holl hyfforddeion i addysgu ar draws o leiaf ddau Gyfnod Allweddol yn olynol.

Nod a chwmpas

Nod y Gofyniad hwn yw sicrhau bod yr hyfforddeion wedi'u paratoi'n dda ar gyfer eu cyflogi mewn ysgolion. Drwy eu hyfforddi ar gyfer o leiaf ddau Gyfnod Allweddol, bydd ganddynt ddigon o brofiad, ac o ddealltwriaeth am gynnydd, fel y gallant ddiwallu anghenion amrywiaeth fawr o ysgolion fel athrawon newydd gymhwyso. Rhaid i'r hyfforddiant gynnog modd i'r hyfforddeion gael yr wybodaeth a'r sgiliau y bydd arnynt eu hangen ar draws yr holl ystod oedran y maent yn paratoi ar ei gyfer. Er mwyn ateb y Gofyniad, rhaid i'r darparwyr ystyried sut y bydd strwythur a chynllun eu hyfforddiant (gweler G2.1) ac amser yr hyfforddeion yn yr ysgol neu mewn lleoliadau eraill (G2.6) yn sicrhau y byddant yn hollol barod i addysgu ar draws o leiaf ddau Gyfnod Allweddol. Gallant gymryd i ystyriaeth yr amser a dreuliodd yn gweithio gyda dysgwyr cyn dechrau'r hyfforddiant (G2.6).

Cwmpasu'r ystod oedran llawn – Y gofynion sylfaenol a geir yn y Gofyniad hwn: gall darparwyr, os dymunant, gynnog rhaglenni sy'n cwmpasu tri Chyfnod Allweddol, megis y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2, neu Gyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4; neu gallant benderfynu cynnog dau Gyfnod Allweddol ynghyd â rhywfaint o estyniad. Fodd bynnag, rhaid iddynt:

- egluro wrth yr ymgeiswyr pa ystod oedran y bydd eu hyfforddiant yn ei gynnwys;
- sicrhau bod yr hyfforddiant yn galluogi'r hyfforddeion i fodloni'r Safonau SAC perthnasol ar gyfer pob Cyfnod Allweddol y maent yn hyfforddi ar ei gyfer (gweler hefyd Treulio amser ar bob Cyfnod Allweddol, isod). Mae hyn yn cynnwys y gofynion o ran gwybodaeth am bwnc yn Safon 2.1(a)-(ch) a'r gofynion ar gyfer addysgu sy'n gysylltiedig â hynny yn Safon 3.3.2(a)-(ch); Safon 3.3.11, sy'n mynnu y bydd yr hyfforddeion yn gallu addysgu ar draws yr ystod oedran a gallu y maent yn hyfforddi ar ei gyfer; a Safon 2.3, sy'n mynnu y bydd yr hyfforddeion yn ymwybodol o'r disgwyliadau, y bydd yr hyfforddeion yn ymwybodol o'r disgwyliadau, y cwricwla nodweddiadol a'r trefniadau addysgu yn y Cyfnodau Allweddol sydd cyn ac ar ôl y rhai y maent yn hyfforddi ar eu cyfer.

Efallai y bydd angen gwybodaeth ehangach am eu pwnc ar yr hyfforddeion hynny sy'n paratoi ar gyfer tri Chyfnod Allweddol na'r rhai sy'n paratoi ar gyfer dau, a rhaid i'r darparwyr ystyried hynny wrth benderfynu ar yr hyn y maent yn ei gynnog. Gallai'r darparwyr benderfynu cynnog hyfforddiant sy'n caniatáu i'r hyfforddeion ddewis, ar adeg benodol, a fyddant yn hyfforddi ar gyfer dau neu dri Chyfnod Allweddol. Bydd yn rhaid iddynt egluro'r meini prawf ar gyfer derbyn hyfforddeion i ddilyn y naill lwybr neu'r llall. Efallai y bydd y darparwyr hefyd yn dymuno ystyried anghenion cyflogaeth yr ysgolion a wasanaethant wrth benderfynu cynnog dau Gyfnod Allweddol neu dri, neu ddau Gyfnod Allweddol ynghyd â rhyw estyniad. Efallai y bydd yn ddymuniad

penodol gan rai ysgolion a lleoliadau eraill recriwtio athrawon sy'n gallu addysgu ystod oedran penodol a bydd y darparwyr yn dymuno paratoi'r hyfforddeion gystal ag y bo modd ar gyfer eu cyflogi.

Treulio amser ar bob Cyfnod Allweddol – Bydd angen i hyfforddeion dreulio digon o amser ar bob Cyfnod Allweddol, pa un a ydynt yn hyfforddi ar gyfer dau neu dri, er mwyn gallu dangos eu bod yn bodloni'r Safonau SAC sy'n ymwneud yn benodol â'r cyfnod hwnnw. Er bod llawer o'r Safonau'n rhai cyffredinol, mae rhai – er enghraifft y rhai ar wybodaeth am bwnc neu asesu cynnydd dysgwyr yn erbyn safonau cenedlaethol – a fydd yn mynnu bod hyfforddeion yn dangos gwybodaeth a sgiliau gwahanol gyda gwahanol grwpiau oedran. Dylai'r hyfforddeion gael digon o amser i addysgu eu pwnc/pynciau ym mhob un o'u Cyfnodau Allweddol fel y gallant fodloni'r Safonau perthnasol gan gynnwys S3.3.2 (addysgu'r ystod oedran perthnasol) a S3.3.11 (hyd a lled y profiad addysgu).

Nid yw hynny'n golygu y bydd hyfforddeion sy'n gweithio mewn un neu ragor o'u Cyfnodau Allweddol ar ddechrau eu hyfforddiant yn gorfod dangos eu bod yn llwyr fodloni'r Safonau SAC perthnasol ar yr adeg honno. Nid yw'n ofynnol ychwaith iddynt dreulio'r un gyfran o amser yn yr ysgol ar bob Cyfnod Allweddol, addysgu ym mhob Cyfnod Allweddol yn eu cyfnod profiad asesedig olaf yn yr ysgol neu addysgu pob grŵp blwyddyn mewn Cyfnod Allweddol. Er hynny, bydd yn rhaid i'r darparwyr fod yn sicr bod ganddynt ddigon o dystiolaeth i farnu ynghylch gallu'r hyfforddeion i fodloni'r holl Safonau perthnasol erbyn diwedd eu hyfforddiant. Er enghraifft, pe bai rhyw hyfforddai'n amlygu rhai gwendidau mewn cysylltiad ag un Cyfnod Allweddol yn ystod cyfnod o brofiad mewn ysgol, a hynny'n gymharol gynnar yn ei hyfforddiant, byddai'n rhaid i'r rhai sy'n gyfrifol am asesu gael rhyw dystiolaeth ei fod wedi gwella cyn cadarnhau, ar ddiwedd yr hyfforddiant, fod yr hyfforddai wedi bodloni'r holl Safonau.

Gellid cael dystiolaeth i ddangos gwelliant o wahanol ffynonellau, yn ôl y Safon sydd dan sylw. Er enghraifft, gellid dangos gwelliant o ran gwybodaeth am bwnc drwy aseiniadau sydd wedi'u marcio, cyflwyniadau neu drafodaethau â'r hyfforddai. Gellid dangos gwelliant o ran rheoli yn yr ystafell ddosbarth yn rhannol drwy waith gyda grwpiau oedran eraill ac yn rhannol drwy drafodaethau â'r hyfforddai. Bydd y darparwyr yn dymuno gwneud pob ymdrech i sicrhau bod yr hyfforddeion yn cael cyfleoedd i ddangos eu bod yn gallu addysgu eu pwnc/pynciau i grwpiau blwyddyn sy'n sefyll asesiadau ac arholiadau cenedlaethol; efallai y bydd angen trefnu iddynt weithio mewn parau neu dimau gydag athrawon profiadol er mwyn sicrhau y cânt ddigon o brofiad gyda'r grwpiau hyn.

Amser mewn gwahanol leoliadau – Bydd rhai ysgolion yn gallu rhoi cyfle i weithio mewn dau Gyfnod Allweddol ac eraill na fyddant ond yn gallu cynnig rhan o'r hyfforddiant. Bydd hyfforddeion sy'n dymuno addysgu dysgwyr sy'n hŷn neu'n iau na'r oedran ysgol gorfodol yn debygol o gael budd o hyfforddiant yn lleoliadau'r blynyddoedd cynnar neu addysg bellach. Os cynigir cyrsiau sy'n cwmpasu CA2 a CA3, bydd yn rhaid i'r hyfforddeion dreulio rhywfaint o amser mewn ysgol gynradd ac mewn ysgol uwchradd er mwyn sicrhau eu bod yn ymdrin yn llawn â'r ddau Gyfnod Allweddol.

Gellid cynnal rhan o'r hyfforddiant mewn ysgol arbennig, yn enwedig os yw darparwr yn dewis cynnig arbenigedd ychwanegol mewn AAA. Ond mae'n annhebygol y bydd modd paratoi'r hyfforddai i fodloni'r holl Safonau drwy hyfforddi mewn ysgol arbennig yn unig. Er enghraifft, bydd yn rhaid i'r hyfforddeion allu addysgu'r Cwricwlwm Cenedlaethol i amrywiaeth o ddysgwyr ar draws dau Gyfnod Allweddol ac ni allent wneud hynny os nad oeddent ond yn gweithio gyda dysgwyr a oedd y tu allan i gwmpas y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Pynciau cynradd heblaw rhai craidd – Bydd angen i'r rhai sy'n darparu rhaglenni CA2 (neu'r Cyfnod Sylfaen a CA2, neu CA2 a CA3) ystyried pa ddulliau sydd orau i hyfforddi ac asesu hyfforddeion yn y pynciau gofynnol sydd heb fod yn rhai craidd (Safonau S2.1(b) ac S3.3.2(b)). Nid oes angen i'r darparwyr gael mwy o fewnbwn gan sefydliad addysg uwch i'r hyfforddiant ar gyfer y Safonau hyn os gallant wneud defnydd o gyfraniadau gan diwtoriaid effeithiol yn yr ysgol yn ystod cyfnod yr hyfforddeion yn yr ysgol. Er hynny, bydd yn rhaid iddynt sicrhau bod cyfleoedd ar gael i'r hyfforddeion i addysgu'r pynciau sy'n ofynnol, gyda chymorth athro profiadol. Efallai y bydd y darparwyr a'u partneriaid yn dymuno ystyried sut y gall arweinwyr pwnc gyfrannu orau at hyfforddiant.

Cwestiynau i'w hystyried gan y darparwyr

- A ydym yn gallu darparu'r profiad a'r hyfforddiant priodol mewn ysgolion neu leoliadau eraill ar gyfer y Cyfnodau Allweddol y bydd yr hyfforddeion yn gweithio ynddynt?
- Sut y byddwn yn darparu digon o brofiad ar draws dau neu dri Chyfnod Allweddol, fel y bydd yr hyfforddeion yn deall y materion allweddol ar gyfer pob grŵp oedran?
- Sut y dylem ofalu y bydd hyfforddeion yn dod yn ymwybodol o faterion sy'n ymwneud â'r Cyfnodau Allweddol sydd cyn ac ar ôl y rhai y maent yn cael eu hyfforddi ar eu cyfer (Safon S2.3)?
- A oes angen hyfforddiant ychwanegol ar diwtoriaid yn yr ysgol neu rai a allai fod yn diwtoriaid mewn lleoliadau heblaw ysgolion?
- Sut y bydd yr hyfforddiant yn galluogi hyfforddeion cynradd i ymdrin â phynciau heblaw'r rhai craidd yn yr ysgol?
- A oes angen athrawon sydd wedi'u hyfforddi ar gyfer mwy na dau Gyfnod Allweddol yn yr ysgolion lle mae'r hyfforddeion yn debygol o gael eu cyflogi?

G2.5 Asesu sgiliau llythrennedd a rhifedd yn barhaus

Y gofyniad

Rhaid i bob darparwr sicrhau bod sgiliau llythrennedd a rhifedd personol hyfforddeion yn cael eu hasesu'n rheolaidd a chywir trwy gydol eu hyfforddiant, a phan gaiff hyfforddeion eu hasesu yn erbyn y Safonau SAC rhaid i'r darparwyr gadarnhau bod y safonau a nodir yn G1.6 wedi'u cynnal.

Nod a chwmpas

Diben G2.5 yw sicrhau bod sgiliau llythrennedd a rhifedd personol athrawon dan hyfforddiant yn cael eu hasesu'n rheolaidd a chywir trwy gydol eu hyfforddiant a'u bod yn dal i fodloni'r safonau gofynnol pan gânt eu hasesu yn erbyn y Safonau SAC. Bydd y gofynion hyn yn dod i rym ym mlwyddyn academiaidd 2013/14.

Yn dilyn yr asesiad cychwynnol o sgiliau llythrennedd a rhifedd personol ar y cychwyn cyntaf, bydd y gofyniad penodol hwn bod sgiliau llythrennedd a rhifedd personol athrawon dan hyfforddiant yn cael eu hasesu'n rheolaidd a chywir trwy gydol eu hyfforddiant yn adeiladu ar yr asesiad parhaus o sgiliau personol yr hyfforddeion.

Bydd hyn yn caniatáu i ddarparwyr HCA ddefnyddio canlyniadau'r asesiadau i nodi lle mae angen cymorth penodol pellach ar hyfforddeion unigol. Dylai darparwyr hefyd ystyried datblygu rhaglenni cymorth parhaus ar gyfer hyfforddeion lle nodir y gallai cymorth ychwanegol fod yn fuddiol iddynt er mwyn cynnal y safon ofynnol.

Cwestiynau i'w hystyried gan y darparwyr

- Sut gallwn sicrhau nad yw'r asesiadau parhaus yn effeithio ar bynciau eraill neu feysydd dysgu a datblygu eraill?
- Sut gallwn sicrhau bod yr hyfforddeion y mae arnynt angen cymorth ychwanegol yn cael eu hadnabod?
- Pa gymorth y gallwn ei ddarparu i hyfforddeion i ddatblygu'r meysydd lle nad ydynt yn bodloni'r safon ofynnol?

G2.6 Amser yn yr ysgol

Y gofyniad

Rhaid i bob darparwr sicrhau bod hyfforddeion yn treulio'r cyfnodau canlynol o leiaf yn cael eu hyfforddi mewn ysgolion, gan gydnabod y gallai profiad blaenorol hyfforddai o weithio gyda disgyblion, fel y barno'r darparwr HCA yn ddoeth, gyfrif tuag at y cyfansymiau hyn:

- 32 wythnos ar gyfer pob rhaglen bedair blynedd i israddedigion
- 24 wythnos ar gyfer pob rhaglen ddwy a thair blynedd i israddedigion
- 24 wythnos ar gyfer pob rhaglen ôl-raddedig uwchradd a Chyfnod Allweddol 2/3
- 18 wythnos ar gyfer pob rhaglen ôl-raddedig gynradd.

Rhaid i bob hyfforddai gael profiad mewn o leiaf dwy ysgol. Gallant ymgymryd â'r hyfforddiant hwn ar sail rhan-amser cyn belled â'u bod yn cwblhau'r un cyfnodau amser â'r rhai a nodir uchod ar gyfer hyfforddiant amser llawn. Gall profiad o addysgu mewn lleoliadau eraill heblaw ysgolion gyfrif tuag at y cyfansymiau hyn hefyd cyn belled â'u bod yn helpu'r hyfforddeion i weithio tuag at gyflawni'r Safonau SAC.

I'w nodi – ar gyfer rhaglenni HCA sy'n dechrau ym mlwyddyn academaidd 2014/15, bydd lleiafswm yr amser a dreulir gan athrawon dan hyfforddiant sy'n dilyn rhaglen gynradd i raddedigion yn cael eu hyfforddi mewn ysgolion yn cynyddu o 18 wythnos o leiaf i 24 wythnos o leiaf.

Nod a chwmpas

Nod y Gofyniad ar amser yn yr ysgol yw sicrhau y bydd hyfforddeion yn cael digon o brofiad o ansawdd da i'w galluogi i ddangos eu bod yn bodloni'r Safonau SAC. Yn benodol, mae Safon 3.3.11 yn egluro y bydd y rhai sy'n ennill SAC yn gallu 'cymryd cyfrifoldeb dros addysgu dosbarth neu ddosbarthiadau dros gyfnod parhaus a sylweddol o amser', ac y byddant yn gallu 'addysgu ar draws yr ystod gallu ac oed yr hyfforddwyd hwy ar ei gyfer'. Mae cysylltiad rhwng y Gofyniad hwn hefyd a G2.4 ar hyfforddi i addysgu o leiaf ddau Gyfnod Allweddol yn olynol a G2.3 ar ystyried anghenion hyfforddi unigol. Yr egwyddor a ddylai fod yn sail i'r holl benderfyniadau am yr amser a dreulir mewn ysgol neu mewn lleoliadau eraill yw ei fod yn cyfrannu gymaint ag y bo modd at helpu'r hyfforddai i fodloni'r Safonau (gweler G2.1).

Mae 'ysgolion' yn cynnwys lleoliadau'r blynyddoedd cynnar lle mae'r plant yn gweithio tuag at gyflawni'r nodau dysgu cynnar, a cholegau chweched dosbarth neu sefydliadau addysg bellach eraill sy'n cynnig darpariaeth ôl-16. Oherwydd hynny, bydd y rhai sy'n cael eu hyfforddi ar gyfer y Cyfnodau Allweddol hyn yn cael cyfrif amser a dreulir mewn lleoliadau o'r fath yn rhan o'u hamser yn yr ysgol, ar yr amod eu bod hefyd yn treulio digon o amser yn yr ysgol i fodloni'r Safonau sy'n ymwneud â'u Cyfnod(au) Allweddol eraill, a bod eu rhaglen gyfan yn eu galluogi i fodloni'r holl Safonau.

Eithrio ar sail cyflawniadau blaenorol – Mae'r canllawiau ar ddiwallu anghenion unigol (gweler G2.3) yn awgrymu y gellir eithrio ymgeiswyr profiadol rhag rhan o'r Gofyniad ar amser yn yr ysgol, ar yr amod y byddant yn cael digon o amser yn eu rhaglen i ddangos eu bod wedi bodloni'r Safonau. Yn achos y rhai sydd â phrofiad helaeth, gellid gostwng yr amser y maent yn ei dreulio yn yr ysgol i'r lleiaf sydd ei angen iddynt allu dangos eu bod yn bodloni'r Safonau. Gellid eithrio eraill rhag rhan o'r Gofyniad ar sail eu profiad gyda grŵp oedran penodol, er enghraifft, os ydynt yn athrawon profiadol mewn addysg bellach neu os ydynt wedi helpu plant i geisio'r nodau dysgu cynnar yn y Cyfnod Sylfaen. Nid oes cyfyngiad statudol ar faint yr eithriad y gallai'r darparwr ei ganiatáu, ond mae'n annhebygol y byddai unrhyw hyfforddai, ni waeth pa mor brofiadol yr oedd, yn gallu dangos ei fod wedi bodloni'r holl Safonau SAC dros gyfnod o lai na chwe wythnos olynol o addysgu o dan drefniadau arsylwi ac asesu.

Amser mewn ysgolion a lleoliadau eraill yn ystod hyfforddiant – Wedi i ddarparwyr ganfod a ellid eithrio hyfforddai rhag unrhyw ran o'r amser gofynnol yn yr ysgol ar sail ei gyflawniadau blaenorol, gallant ystyried wedyn faint o'r amser yn yr ysgol sy'n weddill y gellid ei dreulio mewn lleoliadau eraill lle y gallai'r hyfforddai weithio i fodloni'r Safonau SAC. Dylai hyfforddeion dreulio cyfnod sylweddol yn addysgu'r ystod oedran y maent wedi'i ddewis mewn ysgol neu sefydliad addysg bellach a chael eu hasesu yn erbyn y Safonau, gan gynnwys S3.3.11. Ond mae amryw o leoliadau eraill a allai gyfrannu at y cyfanswm, er enghraifft, lleoliadau cyn ysgol a meithrinfeydd, lleoliadau galwedigaethol, teithiau maes, a gweithgareddau addysgol mewn theatrau neu amgueddfeydd. Gallai'r rhain gyfrannu'n enwedig at fodloni S3.1.5 (cynllunio cyfleoedd dysgu y tu allan i'r ysgol).

Wrth ystyried y graddau y bydd yr amser a dreulir mewn lleoliadau heblaw ysgolion yn gallu datblygu gallu'r hyfforddai i fodloni'r Safonau, bydd y darparwyr yn dymuno sicrhau bod yr hyfforddeion yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt ac y gellir cofnodi ac asesu eu hanghenion mewn modd dibynadwy. Mewn lleoliad ar gyfer y blynyddoedd cynnar, er enghraifft, efallai y bydd y darparwr yn dymuno sicrhau bod cymorth ar gael i'r hyfforddai gan athro cymwysedig. Os gwneir defnydd helaeth o leoliadau y tu allan i'r ysgol ar gyfer hyfforddiant, efallai y bydd y darparwyr yn dymuno eu gwneud yn aelodau o'r bartneriaeth, ochr yn ochr â'r ysgolion, gan ddilyn y canllawiau ar bartneriaeth a sicrhau ansawdd yn adrannau G3 a G4 isod.

Profiad mewn dwy ysgol – Mae ar hyfforddeion angen profiad eang ac amrywiol o ysgolion i'w galluogi i fodloni'r holl Safonau SAC. Rhaid iddynt gael profi gwahanol ddulliau o addysgu a dysgu ac o reoli ysgolion. Rhaid iddynt gael addysgu dysgwyr o wahanol gefndiroedd, ar draws yr ystod gallu a hynny mewn o leiaf ddau Gyfnod Allweddol. Mae'r Safonau'n rhoi cryn bwyslais ar amrywiaeth a chynhwysiant. Bydd y rhan fwyaf o'r hyfforddeion yn cael budd, felly, o gael profiad, os oes modd, mewn mwy na dwy ysgol ac mewn lleoliadau eraill hefyd. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd rhai hyfforddeion profiadol iawn wedi bod yn addysgu eisoes mewn ysgolion heblaw'r rhai lle byddant yn cael eu hyfforddi ac wedi cael profiad o addysgu amrywiaeth eang o ddysgwyr.

Mae'r Gofyniad hwn yn rhoi rhyddid i'r darparwyr gael ystyried a yw profiad blaenorol yr hyfforddeion yn brawf eu bod wedi bodloni rhan o'r Gofyniad, fel mai dim ond mewn un ysgol y bydd arnynt angen hyfforddiant pellach yn ystod eu rhaglen

hyfforddi. Fodd bynnag, mewn achosion o'r fath, bydd angen i'r darparwyr fod yn arbennig o ofalus i sicrhau bod y profiad y bydd asesiad SAC yr hyfforddai'n dibynnu arno yn un o'r safon orau bosibl ac y bydd yn ategu eu profiad blaenorol, fel na fydd yr hyfforddai'n cael ei roi mewn perygl o fethu.

Yn gyffredinol, dylai'r holl brofiad yn yr ysgol fod mewn ysgolion sydd yn y cyfnod(au) perthnasol ar gyfer y ddau neu dri Chyfnod Allweddol y mae'r hyfforddai'n paratoi ar eu cyfer, fel y bydd yr amser yn yr ysgol yn cael ei ddefnyddio yn y modd mwyaf effeithiol i alluogi'r hyfforddai i fodloni'r Safonau. Er hynny, mae'n bosibl y ceir achosion eithriadol lle nad oes modd i'r hyfforddai fynd i fwy nag un ysgol sydd yn y cyfnod perthnasol. Mewn achosion o'r fath, gallai amser yn yr ysgol neu leoliad arall y tu allan i ddewis ystod oedran yr hyfforddai fod yn dderbyniol fel modd i sicrhau profiad eang. Byddai'n rhaid i'r darparwr sicrhau bod modd rhoi sylw i'r holl Safonau sy'n berthnasol i'r Cyfnodau Allweddol dan sylw mewn un ysgol. Ni ddylid ond gwneud trefniant o'r fath i ddiwallu anghenion hyfforddeion penodol; dylid bob amser ceisio sicrhau wrth gynllunio rhaglenni y bydd yr holl hyfforddeion yn cael profiad mewn o leiaf ddwy ysgol sy'n cynnwys y Cyfnodau Allweddol y maent yn hyfforddi ar eu cyfer.

Ysgolion y tu allan i Gymru – Yn ôl Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012, i fod yn athro cymwysedig bydd yn rhaid i bob unigolyn sydd yn cychwyn cwrs hyfforddiant cychwynnol athrawon ar neu ar ôl 1 Medi 2008 fod wedi ymgymryd â'u profiad addysgu ymarferol at ddibenion y cwrs hwnnw, yn gyfan gwbl neu'n rhannol mewn ysgol, ysgol annibynnol neu sefydliad arall (ac eithrio uned cyfeirio disgyblion) yng Nghymru.

Nod y gofyniad hwn yw sicrhau y bydd hyfforddeion yn ymgymryd ag ymarfer addysgu digonol mewn ysgolion yng Nghymru i'w galluogi i ddangos eu bod yn gallu addysgu'r pynciau perthnasol yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru neu bynciau eraill a addysgir at safon arholiadau cyhoeddus. Mae'r Safonau SAC hefyd yn cynnwys sawl maes ac iddo ddimensiwn penodol Gymreig – er enghraifft, gwahanol ofynion y Cyfnod Sylfaen; a'r gofyniad y bydd hyfforddeion yn dangos eu bod yn gwneud defnydd priodol o'r Cwricwlwm Cymreig / Cymru, Ewrop a'r Byd.

Mae'r gofyniad "yn gyfan gwbl neu'n rhannol" o'r Rheoliadau yn ystyried y ffaith y ceir rhai amgylchiadau lle byddai lleoliad mewn ysgol y tu allan i Gymru yn briodol, er enghraifft, os yw'r hyfforddeion eisoes wedi dangos eu bod yn bodloni'r safonau hynny sy'n ymwneud ag elfennau gwahanol y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer Cymru. Byddai hyfforddeion sy'n arbenigo mewn leithoedd Tramor Modern yn gallu cael budd o dreulio amser mewn ysgolion mewn gwledydd tramor.

Er hynny, bydd yn rhaid i'r darparwyr sicrhau y bydd unrhyw hyfforddiant y tu allan i Gymru'n cyfrannu at allu'r hyfforddeion i fodloni'r Safonau SAC ar gyfer Cymru.

Ffynonellau gwybodaeth

Mae adroddiadau Estyn ar ysgolion, lleoliadau'r blynyddoedd cynnar a sefydliadau ôl-16 ar gael ar ei wefan, sef www.estyn.gov.uk. Efallai y bydd y darparwyr yn dymuno ystyried adroddiadau Estyn wrth drefnu amser mewn ysgolion neu leoliadau eraill ar gyfer yr hyfforddeion. Yn ogystal â'r rhain, mae Estyn wedi cyhoeddi sawl adroddiad sy'n berthnasol i amrywiaeth a chynhwysiant disgyblion

(gweler ei wefan a'r rhestr cyhoeddiadau yn Atodiad A).

Cwestiynau i'w hystyried gan y darparwyr

- A yw'r cydbwysedd rhwng lleoliadau yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol yn un sy'n addas i baratoi pob hyfforddai i fodloni'r holl Safonau SAC?
- A yw'r ystodau angenrheidiol, o ran oedran, gallu a phynciau, ar gael i bob hyfforddai?
- A yw'r hyfforddeion yn cael y cymorth y mae arnynt ei angen gan athrawon cymwysedig ym mhob ysgol neu leoliad y tu allan i ysgol?
- Sut y dylem sicrhau ansawdd y profiad mewn ysgolion a lleoliadau y tu allan i'r ysgol?
- A oes angen unrhyw drefniadau arbennig ar gyfer hyfforddeion penodol (er enghraifft, y rhai mewn ysgolion anghysbell neu leoliadau eraill)?
- A ydym yn gallu cynnig cyfleoedd i hyfforddeion gael addysgu mewn amgylchedd lle y mae amrywiaeth o ddisgyblion? Os nad ydym, sut y byddwn yn sicrhau bod yr hyfforddeion wedi'u paratoi i fodloni'r Safonau sy'n ymwneud ag amrywiaeth a chynhwysiant?
- A ydym yn gallu cynnig cyfleoedd i hyfforddeion gael addysgu dysgwyr ar draws ystod gallu eang?

G2.7 Lleiafswm y gweithgarwch hyfforddi

Y gofyniad

Rhaid i bob darparwr sicrhau bod hyfforddeion yn cael o leiaf 60 diwrnod o weithgarwch hyfforddi ym mhob blwyddyn academiaidd (ar sail pro rata ar gyfer cyrsiau rhan-amser neu fodiwlaid).

Nod a chwmpas

Nod y gofyniad hwn yw darparu o leiaf 60 diwrnod o weithgarwch hyfforddi y flwyddyn i hyfforddeion. Dyma fydd y cyfnod byrraf o weithgarwch hyfforddi penodedig mewn prifysgol neu ysgol, sydd ar wahân i'r amserlen addysgu. Bydd yn sicrhau cysondeb ar draws y rhaglenni HCA cynradd ac uwchradd ac yn ategu'r cyfnodau byrraf a bennwyd eisoes ar gyfer hyfforddeion o ran yr amser y mae'n rhaid iddynt ei dreulio'n cael hyfforddiant mewn ysgolion, gan ddarparu dull gweithredu cyffredin ar gyfer pob hyfforddai.

Mae gan ddarparwyr HCA yr hyblygrwydd i gynllunio cynnwys, strwythur a threfniadau darparu'r hyfforddiant er mwyn galluogi'r athrawon dan hyfforddiant i ddangos eu bod wedi bodloni'r Safonau SAC (Gofyniad G2.1 Cynllun y rhaglen). Pwrpas y gofyniad newydd hwn yw sicrhau cysondeb ar draws cyrsiau unigol a darparwyr fel bod amser craidd penodol wedi'i neilltuo ar gyfer pob cwrs.

Cwestiynau i'w hystyried gan y darparwyr

- Sut y mae ein cyfrifoldeb o dan y gofyniad hwn yn cyd-fynd â'r gofynion eraill o ran cynllunio'r rhaglen?
- Sut y mae'r amser neilltuedig hwn yn darparu cyfleoedd i hyfforddeion weithio tuag at fodloni eu Safonau SAC?
- Sut gallwn ddefnyddio'r amser hwn i ganiatáu i'r hyfforddai ddatblygu'n effeithiol wybodaeth am bynciau a'r sgiliau addysgeg.

G2.8 Hyfforddiant ar addysgu llythrennedd a rhifedd

Y gofyniad

Rhaid i bob darparwr sicrhau bod hyfforddeion yn cael eu hyfforddi i addysgu rhifedd a llythrennedd mewn modd sy'n addas i'r cyfnod a'r pwnc astudio, a sicrhau hefyd bod hyn yn rhan ganolog o'r cyrsiau hyfforddiant.

Nod a chwmpas

Mae'r darpariaethau statudol cyfredol yn y Gofynion yn cwmpasu darparu hyfforddiant yn ymwneud ag addysgu llythrennedd a rhifedd drwy ofyniad bod yn rhaid i ddarpariaeth HCA alluogi hyfforddeion i ddangos eu bod wedi cyrraedd Safonau SAC.

Mae'r Safonau SAC yn cynnwys gofynion niferus yn ymwneud ag addysgu llythrennedd a rhifedd. Er mwyn ennill SAC, mae'n rhaid i hyfforddeion ddangos bod ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'r pwnc/pynciau y maent wedi'u hyfforddi ynddynt; ac y gallant addysgu'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth ofynnol neu ddisgwyliedig sy'n berthnasol i'r cwricwlwm ar gyfer dysgwyr yn yr ystod oedran y maent wedi'u hyfforddi ar ei chyfer.

Ym mhob cyfnod, mae'n rhaid i hyfforddeion ddangos eu bod yn gwybod ac yn deall y canllawiau cenedlaethol diweddaraf ar ddatblygu sgiliau meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhifau, er enghraifft y rhai a nodir yn y *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008). Mewn perthynas ag addysgu mewn cyfnodau penodol:

- mae'n rhaid i'r rhai sy'n gymwys i addysgu plant Cyfnod Sylfaen ddangos eu bod yn addysgu'r saith Maes Dysgu sy'n rhan o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn gymwys ac yn annibynnol (gan gynnwys Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu; a Datblygiad Mathemategol);
- mae'n rhaid i'r rhai sy'n gymwys i addysgu dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 2 ddangos eu bod yn gallu addysgu'r pynciau craidd (gan gynnwys Saesneg a Mathemateg) yn gymwys ac yn annibynnol;
- mae'n rhaid i'r rhai sy'n gymwys i addysgu dysgwyr Cyfnod Allweddol 3 neu Gyfnod Allweddol 4 ddangos eu bod yn gallu addysgu eu pwnc/pynciau arbenigol yn gymwys ac yn annibynnol, gan ddefnyddio rhaglenni astudio'r cwricwlwm cenedlaethol.

Mater i'r darparwyr HCA fydd ystyried sut i ddarparu'r hyfforddiant ar gyfer y cyfnod/pwnc dan sylw (yn unol â'u cyfrifoldebau o dan Ofyniad G2.1). Hefyd, bydd angen i'r darparwyr ystyried sut byddant yn darparu cymorth ychwanegol i'r hyfforddeion os nodir bod angen datblygu eu sgiliau addysgu ymhellach yn sgil y gofyniad hwn.

Nodwyd yn egwyddorion craidd y Rhaglen Rhifedd Genedlaethol a'r Rhaglen Llythrennedd Genedlaethol bod 'sut rydym yn addysgu' yn ffactor allweddol ar gyfer gwella cyrhaeddiad addysgol, ac mae ystyried arferion a dulliau addysgu yn hollbwysig os ydym am fanteisio i'r eithaf ar ymgysylltiad a chymhelliant myfyrwyr.

Mae'r Rhaglen Rhifedd Genedlaethol yn nodi bod sgiliau rhifedd a mathemateg yr athrawon eu hunain yn hollbwysig o ran rhoi'r hyder a'r gallu iddyn nhw addysgu rhifedd a thechnegau mathemategol – maes y gellir ei ddatblygu yn ystod HCA a rhaglenni ôl-gymhwyso. Mae'n rhaid integreiddio addysgu rhifedd ar draws y cwricwlwm cyfan gan roi cyfle i'r dysgwyr ddefnyddio egwyddorion rhifedd mewn gwahanol feysydd pwnc ac addysgu rhifedd mewn ffordd sy'n edrych yn wahanol i fathemateg.

Mae'r Rhaglen Llythrennedd Genedlaethol yn datgan ei bod yn arbennig o bwysig bod dysgwyr yn datblygu sgiliau llythrennedd cadarn yn gynnar yn eu haddysg. Mae llafaredd cynnar a datblygu sgiliau darllen yn flociau adeiladu arbennig o bwysig, a cheir disgwyliad cenedlaethol y dylai pob ysgol gynradd addysgu ffoneg mewn modd cyson a diddorol gan ddefnyddio rhaglenni ffoneg yn aml ac yn rheolaidd. Os oes gan bob dysgwr fynediad at athrawon gwych sy'n gallu darparu ffoneg a sgiliau darllen eraill mewn modd cyson a diddorol, gellir disgwyl i safonau darllen plant sy'n derbyn addysg yng Nghymru wella'n sylweddol erbyn iddynt adael yr ysgol gynradd. Os gellir cynorthwyo dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau llafaredd ac ysgrifennu erbyn iddynt adael yr ysgol gynradd, maent yn fwy tebygol o elwa'n llawn ar yr hyn y byddant yn ei ddysgu yn yr ysgol uwchradd. Yn yr un modd, dylai dysgwyr sy'n gadael yr ysgol uwchradd fod wedi datblygu'r uwch sgiliau llafaredd, darllen ac ysgrifennu sy'n angenrheidiol er mwyn ategu eu dewisiadau yn y dyfodol mewn addysg bellach neu gyflogaeth.

Cwestiynau i'w hystyried gan y darparwyr

- A fydd yr hyfforddiant ychwanegol hwn yn cael effaith ar y meysydd hyfforddi eraill y mae'r rhaglen TAR yn eu cwmpasu?
- Sut y byddwn yn darparu'r cymorth ychwanegol i hyfforddeion os nodir bod angen datblygu eu sgiliau hyfforddi ymhellach?
- Sut y byddwn yn sicrhau bod ein hyfforddiant yn cael ei ddarparu mewn modd sy'n addas i'r cyfnod/pwnc dan sylw?

G2.9 Proffil Dechrau Gyrfa ac ymsefydlu

Y gofyniad

Rhaid i bob darparwr sicrhau bod pob un sy'n bodloni'r Safonau SAC ar ôl cael asesiad yn cael Proffil Dechrau Gyrfa a chymorth i'w lenwi, a'u bod hefyd yn cael gwybod am y trefniadau statudol ar gyfer ymsefydlu athrawon sydd newydd gymhwyso ac wedi cael cymorth i baratoi ar eu cyfer.

Nod a chwmpas

Mae'r Gofyniad hwn yn pennu cyfrifoldebau darparwyr hyfforddiant yng nghyswllt y Proffil Dechrau Gyrfa (PDG) a ymsefydlu. Rhaid rhoi PDG i hyfforddeion llwyddiannus, a rhaid rhoi cymorth iddynt ei lenwi yn ogystal; a rhaid i ddarparwyr hyfforddiant fynd ati i helpu hyfforddeion i baratoi ar gyfer eu rôl yn y broses ymsefydlu, a sicrhau eu bod yn gwybod am y Radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol a'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer y rhaglen.

Proffil Dechrau Gyrfa – Mae'r darparwyr yn gwybod mai un cam yw HCA mewn proses hirdymor o ddatblygu proffesiynol a fydd yn parhau drwy gydol gyrfa'r athro. Yn ystod blwyddyn gyntaf yr athro, mae'r cam nesaf – y cyfnod ymsefydlu statudol (a'r Radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol i'r rheini sy'n dewis ei astudio) – yn cynnwys rhaglen datblygiad proffesiynol ynghyd ag asesiad yn erbyn Safonau Athrawon wrth eu Gwaith. Mae'n bwysig sicrhau y bydd y cyfnod ymsefydlu yn datblygu'r hyn a gyflawnodd yr athro newydd gymhwyso wrth fodloni'r Safonau SAC.

Amcan y PDG, felly, yw helpu hyfforddeion ac athrawon newydd gymhwyso i greu cysylltiadau adeiladol rhwng y cyfnodau hyn yn eu gyrfa. Yn benodol, ei fwriad yw cynnig:

- rhywbeth y gallant ganolbwyntio arno, tua diwedd y rhaglen hyfforddiant cychwynnol, wrth feddwl am yr hyn y maent wedi'i gyflawni a'r hyn y maent yn dymuno ei gyflawni wedyn;
- ffordd o wneud defnydd o'r syniadau hynny ar ddechrau'r cyfnod Ymsefydlu, a'u hystyried ochr yn ochr â ffactorau eraill wrth gynllunio rhaglen ymsefydlu a phenderfynu a fyddant yn astudio'r Radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol (yn achos yr athrawon newydd gymhwyso sy'n gymwys).

Mae'r Proffil yn fodd yn ysgogi'r athro, ar bwyntiau trawsnewid allweddol mewn HCA ac yn y cyfnod Ymsefydlu, i fyfyrion ynghylch ei ddatblygiad proffesiynol ac i nodi ei ymatebion. Nid yw'r ymatebion hyn yn nod ynddynt eu hunain: dylid eu defnyddio i roi cyfeiriad i feddwl yr athro newydd, i fod yn sail i drafodaethau pellach gyda'i diwtoriaid HCA, ei fentor yn yr ysgol a'i fentor allanol, ac i gyfrannu at y cynllunio ar gyfer datblygiad proffesiynol wedyn. Mae'r Proffil yn werthfawr oherwydd y syniadau a'r trafodaethau am ddatblygiad proffesiynol a fydd yn deillio ohono; nid oherwydd yr hyn sydd wedi'i ysgrifennu ar y ffurflen.

Mae'r PDG wedi'i gynllunio fel y gellir ei ddefnyddio mewn modd hyblyg, ac fel y bydd yn cynnal neu'n dod yn rhan o'r prosesau cofnodi, myfyrion a chynllunio sy'n codi'n naturiol o HCA a'r cyfnod Ymsefydlu ac o'r Radd Meistr mewn Ymarfer

Addysgol yn achos y rheini sy'n dewis ei astudio. Yn fwy penodol, wrth i'r hyfforddeion ddod at ddiwedd eu rhaglenni HCA, mae'r Proffil yn gofyn iddynt ystyried pa mor bell y maent wedi mynd yn eu datblygiad proffesiynol. Mae'r broses hon yn debygol o fod yn rhan naturiol o raglen hyfforddi. Bydd y rhan hon o'r Proffil yn helpu hyfforddeion, drwy drafod â'u darparwr HCA, i feddwl am eu profiad cyn ac yn ystod eu rhaglen hyfforddi ffurfiol, ac i nodi pwyntiau allweddol mewn cysylltiad â'u gwaith fel athrawon. Mae hefyd yn eu helpu i feddwl am yr hyn y dylid canolbwyntio arno yn eu datblygiad proffesiynol yn y dyfodol er mwyn:

- ystyried a datblygu cryfderau eu harferion addysgu a'u blaenoriaethau ar gyfer datblygiad pellach;
- nodi anghenion dysgu proffesiynol;
- datblygu agweddau ar rôl yr athro y mae ganddynt ddi-ddordeb arbennig ynddynt;
- rhoi mwy o brofiad, neu feithrin arbenigedd, mewn meysydd nad ydynt wedi'u datblygu cymaint hyd yma;
- dechrau meddwl sut y byddant yn sicrhau bod eu harferion yn bodloni'r Safonau Athrawon wrth eu Gwaith;
- ystyried a ydynt yn dymuno astudio'r Radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol.

Ymsefydlu – Mae'r broses ymsefydlu yn ofyniad statudol i bob athro newydd gymhwyso (ANG) sy'n ennill statws athro cymwysedig (SAC) ar ôl 1 Ebrill 2003 ac sy'n dymuno addysgu mewn ysgol a gynhelir neu ysgolion arbennig nas cynhelir yng Nghymru. Mae'r cyfnod ymsefydlu statudol yn galluogi'r holl athrawon sydd newydd gymhwyso i drosglwyddo o hyfforddiant cychwynnol athrawon i ymarfer proffesiynol effeithiol.

Mae'r cyfnod ymsefydlu yn parhau dros dri thymor gan amlaf (hynny yw, blwyddyn ysgol gyfan) neu eu cyfwerth, ond mae peth hyblygrwydd ar gyfer athrawon sy'n gweithio'n rhan-amser, sy'n cael seibiant yn ystod eu gyrfa neu sy'n gweithio fel athrawon cyflenwi byrdymor.

Mae'r trefniadau ymsefydlu yng Nghymru yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- rhaglen o ddatblygiad proffesiynol, monitro a chymorth sy'n seiliedig ar y blaenoriaethau craidd o fewn y meysydd sy'n allweddol er mwyn gwella safonau addysgu a gwella deilliannau dysgwyr. Y blaenoriaethau hyn yw llythrennedd, rhifedd, lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad, anghenion dysgu ychwanegol, rheoli ymddygiad, ac ymarfer myfyriol;
- cymorth gan fentor yn yr ysgol a mentor allanol trwy gydol y cyfnod ymsefydlu;
- gostyngiad o 10% yn amserlen yr athro newydd gymhwyso (caiff hyn ei nodi yn Nogfen Tâl ac Amodau Athrawon Ysgol);
- asesiad ar sail Safonau Athrawon wrth eu Gwaith.

Mae ymsefydlu yn cefnogi datblygiad athrawon newydd gymhwyso yn ystod eu blwyddyn gyntaf yn eu swyddi drwy eu hannog i bwysu a mesur a chanolbwyntio ar eu proffesiynoldeb, gwybodaeth, dealltwriaeth a'u sgiliau. Bydd yr athrawon newydd gymhwyso yn cael eu cynorthwyo a'u goruchwyllo drwy bartneriaeth rhwng yr ysgol(ion) lle mae'r athro dan sylw'n gweithio a mentor allanol sy'n cael ei baru â'r ysgol gan Lywodraeth Cymru.

Gradd Meistr mewn Ymarfer Addysgol – Gall athrawon newydd gymhwyso sy'n dechrau eu cyfnod ymsefydlu o fis Medi 2012 ymlaen, hefyd fanteisio ar y cyfle i ddilyn rhaglen Meistr mewn Ymarfer Addysgol. Mae'r rhaglen yn cael ei dilyn ar yr un pryd â'r cyfnod ymsefydlu yn y flwyddyn gyntaf ac yn cefnogi athrawon yn ystod eu hail a'i trydedd flwyddyn o addysgu. Mae'r meini prawf cymhwyster ar gyfer y rhaglen Meistr mewn Ymarfer Addysgol i'w cael ar wefan Prifysgol Caerdydd.

Yn yr un modd â HCA, dylai athrawon newydd gymhwyso chwarae rhan weithredol yn eu cyfnod Ymsefydlu. Oherwydd hynny, dylai darparwyr hyfforddiant helpu'r hyfforddeion i ddeall eu hawliau a'u rhwymedigaethau o dan y trefniadau statudol. Yn ogystal â hynny, bydd y darparwyr hefyd yn dymuno helpu hyfforddeion i weld y cysylltiad rhwng eu rôl yn y cyfnod Ymsefydlu a'u profiad, yn ystod HCA, o ddadansoddi eu hanghenion datblygu, gosod amcanion a chynllunio gweithgareddau ar gyfer datblygiad proffesiynol a helpu hyfforddeion i benderfynu a fyddant yn astudio'r Gradd Meistr mewn Ymarfer Addysgol.

Cwestiynau i'w hystyried gan y darparwyr

- Sut yr ydym yn helpu'r hyfforddeion i baratoi ar gyfer y cyfnod ymsefydlu wrth iddynt ddatblygu eu gyrfa ac ar gyfer y Radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol yn achos yr athrawon newydd gymhwyso sy'n dewis gwneud cais i ddilyn y radd honno.
- Pa mor gyfarwydd yw'r aelodau staff allweddol â'r trefniadau statudol ar gyfer ymsefydlu a'r Radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol ac, yn benodol, y rhan y mae'r athro newydd gymhwyso yn ei chwarae ynddynt?
- Sut gallwn ddefnyddio'r PDG i helpu hyfforddeion i fyfyrio ynghylch eu datblygiad proffesiynol tua diwedd ein rhaglen? Ym mha rai o'r prosesau presennol y gellid defnyddio'r PDG?
- Pa brosesau neu ddogfennau sy'n ymwneud â chofnodi a chynllunio datblygiad proffesiynol yn ystod ein rhaglen y gallai hyfforddeion wneud defnydd ohonynt wrth ateb y cwestiynau a godir yn ystod 'pwynt trawsnewid' cyntaf y PDG?

G2.10 Amddiffyn plant

Y gofyniad

Rhaid i bob darparwr sicrhau bod yr hyfforddeion yn gyfarwydd â'r canllawiau cenedlaethol mwyaf diweddar ar amddiffyn a diogelu plant.

Nod a chwmpas

Mae'r gofyniad hwn yn rhoi pwys ar gyfrifoldebau darparwyr hyfforddiant i sicrhau bod darpariaeth benodol mewn cyrsiau HCA ar faterion sy'n ymwneud ag amddiffyn plant. Mae amddiffyn plant yn rhan o ddiogelu a hybu lles a dylid ei ddeall o fewn y cyd-destun Diogelu ehangach. Mae diogelu yn ehangach nag 'amddiffyn plant' gan ei fod yn cynnwys atal.

- Diffinnir **diogelu a hyrwyddo lles plant** fel y broses o amddiffyn plant rhag camdriniaeth ac esgeulustod; rhwystro unrhyw beth rhag amharu ar eu hiechyd neu eu datblygiad; a sicrhau eu bod yn cael gofal diogel ac effeithiol er mwyn eu galluogi i gael y cyfleoedd gorau mewn bywyd.
- Mae **amddiffyn plant** yn cyfeirio at y gweithgaredd a wneir i ddiogelu plant penodol sy'n dioddef neu sydd mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol o ganlyniad i gamdriniaeth neu esgeulustod.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dau ganllaw statudol sy'n amlinellu'r gofynion ar gyfer darparwyr addysg mewn perthynas â hyfforddiant diogelu plant.

- Yn ôl Cylchlythyr 005/2008 – Diogelu Plant mewn Addysg: Rôl awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu o dan Ddeddf Addysg 2002:

3.26 *Mae angen i'r holl staff sy'n gweithio â phlant fod wedi derbyn hyfforddiant amddiffyn plant sylfaenol fel y gallant adnabod ac ymateb i bryderon lles plant. Bydd manylder a dwyster yr hyfforddiant sydd ei angen ar wahanol grwpiau yn amrywio yn ôl natur eu rôl a faint y maent yn ymwneud â phlant.*

3.27 *Mae asiantaethau unigol yn gyfrifol am sicrhau bod eu staff yn gymwys a hyderus i gyflawni eu cyfrifoldebau dros ddiogelu a hybu lles plant. Bydd y Bwrdd Lleol Diogelu Plant yn gallu rhoi cyngor am y lefelau hyfforddiant sylfaenol sydd angen i staff eu derbyn fel y gallant gydymffurfio â gweithdrefnau y cytunwyd arnynt yn lleol.*

- Yn ôl Cylchlythyr 12/2007 – Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004:

11.1 *Mae'n rhaid i bawb sy'n gweithio gyda phlant, a chydag oedolion sy'n rhieni neu'n ofalwyr, feddu ar yr wybodaeth a'r sgiliau i gyflawni'u swyddogaethau, er mwyn diogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys gallu adnabod a chodi pryderon ynglŷn â diogelu lles plentyn. Rhaid iddynt hefyd allu gweithio yn effeithiol ag eraill, o fewn eu hasiantaeth eu hunain yn ogystal ag mewn asiantaethau eraill. Y ffordd orau o sicrhau hyn fydd trwy gyfuniad o hyfforddiant ar gyfer asiantaethau unigol a hyfforddiant aml-asiantaeth.*

Mae Safon S1.8 yn mynnu y bydd y rhai sy'n ceisio SAC yn dangos eu bod yn gyfarwydd â'r fframweithiau statudol sy'n ymwneud â chyfrifoldebau athrawon ac y byddant yn gweithio oddi mewn iddynt. Mae materion sy'n ymwneud ag amddiffyn plant yn rhan o'r cyfrifoldebau hynny.

Tynnir sylw'n benodol at adroddiad 'Clywch' Comisiynydd Plant Cymru ar honiadau o gam-drin plant ac at y ffaith bod y canfyddiadau a geir ynddo'n rhan o gyrsiau hyfforddiant. Yn benodol, dylai'r darparwyr nodi bod y Comisiynydd wedi tynnu sylw at yr angen i athrawon feddu ar yr wybodaeth, y sgiliau a'r hyder y mae eu hangen i ddarganfod arwyddion posibl o gamdriniaeth a chymryd camau i amddiffyn plant sydd dan eu gofal.

Ni fyddai disgwyl i'r darparwyr sicrhau bod yr holl hyfforddeion yn meddu ar wybodaeth a sgiliau manwl; dylid cydnabod nad yw'r hyfforddeion o bosibl yn meddu ar yr awdurdod a geir o fod yn gyflogedig mewn ysgol a dylid rhoi pwyslais ar weithio gydag athrawon eraill, gan ddibynnu ar athro profiadol am gymorth fel y bo'n briodol, a dilyn polisiau'r ysgol yn y maes hwn. Er bod y gofyniad hwn yn berthnasol i bob cwrs HCA, rhoddodd y Comisiynydd bwys ar yr angen i roi sylw i faterion sy'n ymwneud ag addysgu drama yn benodol.

Mae cysylltiad rhwng y gofyniad hwn ac G1.4 (addasrwydd i addysgu).

G3: Rheoli'r bartneriaeth HCA

Mae'r rhan fwyaf o'r Safonau SAC yn rhai na ellir ond dangos tystiolaeth lawn ar eu cyfer pan fydd yr hyfforddeion yn gweithio gyda dysgwyr yn yr ystafell ddosbarth neu mewn lleoliadau eraill lle mae dysgwyr yn cael eu haddysgu; ac mae'r hyfforddiant ar ei fwyaf effeithiol pan fydd athrawon gweithredol yn cymryd rhan yn uniongyrchol. Oherwydd hynny, mae'r Gofynion yn nodi bod rhaid i ddarparwyr HCA weithio mewn partneriaeth ag ysgolion.

Mae 'ysgolion' yn cynnwys colegau chweched dosbarth, sefydliadau addysg bellach eraill a lleoliadau'r blynyddoedd cynnar lle gall hyfforddeion ddangos eu bod yn bodloni'r Safonau ar gyfer Statws Athro Cymwysedig.

Mae partneriaethau llwyddiannus yn dod â budd i bawb sy'n gysylltiedig â hwy. Gall hyfforddeion fod yn ffyddiog bod yr holl bartneriaid yn cyfrannu mewn modd trefnus ac integredig i'w hyfforddiant. Bydd athrawon yn cael cyfleoedd newydd i fyfyrion ynghylch eu harferion eu hunain a'u cyfleu, ac i gymryd rhan mewn deialog broffesiynol â hyfforddeion, tiwtoriaid a chydweithwyr eraill. Bydd yr ysgolion, a'r sefydliadau AU, yn cael cyfle i drafod syniadau newydd ac i wneud defnydd o brofiad ac arbenigedd yng nghyswllt Ymsefydlu athrawon newydd gymhwyso a datblygiad proffesiynol parhaus eu staff. Bydd y darparwyr mewn lle gwell i sicrhau bod eu rhaglenni HCA yn adlewyrchu anghenion newidiol yr ysgolion.

Ceir amryw o ddulliau llwyddiannus o redeg partneriaeth eisoes, ac mae'r canllawiau hyn yn ceisio adeiladu ar sail yr arferion hynny drwy ddisgrifio, ar gyfer pob un o'r Gofynion ar bartneriaeth isod, rai o'r nodweddion cyffredin a geir mewn partneriaethau effeithiol. Nid yw'r canllawiau'n argymhell unrhyw fodel penodol ar gyfer partneriaeth: mae ansawdd yr hyfforddiant a ddarperir gan y bartneriaeth yn bwysicach na'r dull o'i drefnu. Ceir canllawiau ar sicrhau ansawdd o dan G4. Bydd y partneriaethau'n dymuno cymryd ansawdd i ystyriaeth hefyd wrth benderfynu pwy a ddylai fod yn aelod o'r bartneriaeth, gan wneud defnydd, er enghraifft,

o adroddiadau Estyn a gwybodaeth am brofiad a chymwysterau staff.

G3.1 Gweithio mewn partneriaeth i gynnig HCA

Y gofyniad

Rhaid i bob darparwr weithio mewn partneriaeth â'r ysgolion a rhoi rhan weithredol iddynt wrth:

- *gynllunio a darparu HCA*
- *dethol athrawon dan hyfforddiant*
- *asesu'r athrawon dan hyfforddiant ar gyfer SAC.*

Nod a chwmpas

Amcan y Gofyniad hwn yw sicrhau y bydd yr ysgolion yn bartneriaid llawn ym mhob ffordd yn HCA: yn ogystal â chyfrannu at ddarparu'r hyfforddiant, byddant yn cymryd rhan wrth gynllunio hyfforddiant, ac wrth ddethol ac asesu hyfforddeion. Mae hyn yn cynnig modd i'r partneriaethau wneud defnydd o gryfderau'r holl bartneriaid, datblygu eu gallu i gyfrannu at hyfforddiant, a sicrhau bod yr hyfforddeion yn cael budd o raglen hyfforddiant proffesiynol sy'n drefnus ac yn effeithiol. Gellir defnyddio'r cytundeb partneriaeth (gweler G3.2) i wneud trefniadau ymarferol ar gyfer gweithio ar y cyd, er enghraifft, drwy drefnu cyfarfodydd rheolaidd

o bwyllgor partneriaeth.

Cynllunio a darparu hyfforddiant – Bydd partneriaethau effeithiol yn cynllunio gyda'i gilydd i sicrhau bod yr hyfforddiant mewn gwahanol leoliadau wedi'i lwyr integreiddio a'i fod yn paratoi hyfforddeion i fodloni'r holl Safonau (gweler hefyd G3.3). Maent yn cynnig cyfleoedd, os yw hynny'n berthnasol, i staff yr ysgol gyfrannu at yr elfennau o raglenni HCA sydd wedi'u lleoli mewn sefydliadau addysg uwch.

Bydd yr ysgolion sy'n bartneriaid yn cyfrannu at yr adolygiad rheolaidd o'r rhaglen HCA i sicrhau ei bod yn diwallu anghenion yr hyfforddeion a'r ysgolion. Bydd ysgolion yn darparu staff addas sy'n cyfrannu'n sylweddol at hyfforddiant yn yr ysgol. Byddant hefyd yn cynnig cyfleoedd i hyfforddeion gael arsylwi ar athrawon profiadol, cael profiad o wahanol agweddau ar waith athrawon a chyfrannu at fywyd corfforaethol yr ysgol.

Bydd y darparwyr a'r ysgolion yn cydweithio i ganfod ffyrdd o sicrhau bod yr hyfforddeion yn cael y profiadau y mae arnynt eu hangen i fodloni'r holl Safonau, gan ddal y ddysgl yn wastad rhwng anghenion yr ysgol a'r angen i baratoi'r holl athrawon newydd gymhwyso yn llawn ar gyfer eu rôl. Byddant yn sicrhau bod yr hyfforddeion yn cael cyfleoedd i gymryd cyfrifoldeb dros ddsbarthiadau ar draws dau neu dri Chyfnod Allweddol ac i weithio gydag athrawon profiadol mewn parau neu dimau yn y meysydd hynny yn y Safonau lle na all yr hyfforddai ymgymryd â'r holl gyfrifoldeb ond lle y mae'n rhaid iddo ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau y mae eu hangen i fodloni'r Safonau – er enghraifft, adrodd i rieni, paratoi dysgwyr ar gyfer asesiadau cenedlaethol, a'u hasesu yn erbyn safonau cenedlaethol. Byddant yn rhoi cyfle i'r hyfforddeion drafod a myfyrio ynghylch eu profiadau a'u cyflawniadau gydag athrawon profiadol.

Dethol hyfforddeion – Bydd partneriaethau effeithiol yn cydweithio i gytuno ar y meini prawf a'r gweithdrefnau ffurfiol ar gyfer dethol hyfforddeion. Byddant yn galluogi tiwtoriaid sydd yn yr ysgol i gymryd rhan yn y broses dderbyn ac i gymryd rhan hefyd, pryd bynnag y bo modd, mewn cyfweiliadau ag unigolion neu grwpiau. Bydd yr ysgolion yn rhoi cyfleoedd i'r ymgeiswyr gael gweithio gyda'u dysgwyr mewn ysgolion, ac yn adrodd ar eu haddasrwydd i ymgymryd â hyfforddiant.

Asesu hyfforddeion – Mewn partneriaeth effeithiol, bydd tiwtoriaid sydd yn yr ysgol yn cyfrannu at y gwaith o asesu'r hyfforddeion yn erbyn y Safonau. Er enghraifft, gallent fonitro a chofnodi cynnydd hyfforddeion; cynllunio aseiniadau a thasgau fel y gall yr hyfforddeion ddarparu tystiolaeth o'u cyflawniadau; cyfrannu at asesiadau terfynol, cyfunol sy'n seiliedig ar dystiolaeth; a chyfrannu, gydag aelodau eraill o'r bartneriaeth a chydag archwilwyr allanol, at gymedroli asesiadau.

Cwestiynau i'w hystyried gan y darparwyr

- A oes modd cael mwy o gyfraniad tuag at ddethol, hyfforddi ac asesu hyfforddeion gan yr ysgolion yn y bartneriaeth a gan leoliadau eraill?
- A ddylem wneud rhagor i feithrin gallu aelodau'r bartneriaeth i gyfrannu?

G3.2 Cytundebau partneriaeth

Y gofyniad

Rhaid i bob darparwr sefydlu cytundebau partneriaeth rhwng y darparwr a'r ysgolion sydd:

- *yn nodi'n glir i bawb beth yw rôl a chyfrifoldebau pob partner;*
- *yn nodi'r trefniadau ar gyfer paratoi a chefnogi pob aelod o staff sy'n ymwneud â'r hyfforddiant;*
- *yn nodi'n glir sut y caiff adnoddau eu rhannu a'u dyrannu rhwng y partneriaid.*

Nod a chwmpas

Nod y Gofyniad hwn yw sicrhau y bydd yr holl bartneriaid yn deall yr hyn a ddisgwylir ganddynt a'u bod yn meddu ar y gallu i gyfrannu yn ôl y gofyn, ar ôl rhannu'r adnoddau sydd ar gael fel y cytunwyd. Bydd hyn yn helpu'r bartneriaeth i ddarparu hyfforddiant proffesiynol cydlynol ac integredig mewn modd effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o gytundebau effeithiol yn ganlyniad i ymgynghori lle rhoddir ystyriaeth lawn i farn yr holl bartneriaid. Dogfennau clir, ymarferol ydynt y gall yr holl bartneriaid eu defnyddio, ynghyd â dogfennau sy'n cynnwys gwybodaeth fanylach (er enghraifft, llawlyfrau cwrs). Byddant yn cael eu hadolygu a'u diwygio'n rheolaidd gan aelodau'r bartneriaeth.

Rolau a chyfrifoldebau clir – Rhaid i'r holl hyfforddwyr a hyfforddeion gael gweld yn glir pwy sy'n gyfrifol am bob elfen hyfforddi ac asesu, a sut y mae'r elfennau'n dod at ei gilydd i sicrhau bod yr hyfforddiant yn rhoi sylw i'r holl Safonau SAC. Efallai y bydd y partneriaethau'n dymuno ystyried a yw'r ysgolion yn gallu ymgymryd â rhagor o gyfrifoldebau – er enghraifft, cefnogi hyfforddeion mewn ysgolion heblaw eu rhai eu hunain.

Paratoi a chynorthwyo staff – Cyfrifoldeb y darparwr yw sicrhau bod yr holl staff wedi paratoi'n llawn ar gyfer eu cyfraniad i'r gwaith o ddethol ac asesu hyfforddeion, ac o gynllunio a darparu hyfforddiant. Gallai'r trefniadau yn y cytundeb gynnwys sesiynau hyfforddi, gweithgareddau ymarferol i staff yr ysgolion a staff mewn sefydliadau addysg uwch, a digwyddiadau ymglyfarwyddo lle trafodir cyfraniad pob partner at yr hyfforddiant. Gallent hefyd gynnwys cymorth dilynol drwy ymarferiadau fel cydarsylwi ar hyfforddeion.

Wrth gynllunio hyfforddiant ar gyfer staff sydd mewn ysgolion, bydd partneriaethau effeithiol yn rhoi sylw i amgylchiadau penodol yr ysgol. Er enghraifft, os yw'n anodd rhyddhau staff yn ystod y dydd, gellid trefnu sesiynau yn yr ysgol. Bydd partneriaethau llwyddiannus yn annog eu haelodau i gefnogi ei gilydd. Fodd bynnag, cyfrifoldeb y darparwr yw sicrhau bod yr holl aelodau staff newydd yn y bartneriaeth yn cael eu paratoi'n llawn ar gyfer eu rolau, a bod yr holl hyfforddwyr presennol yn cael gwybod yn brydlon am y datblygiadau diweddaraf, gan gynnwys newidiadau i'r Safonau a'r Gofynion ac i'r dyletswyddau statudol sy'n gysylltiedig â chyfle cyfartal.

Dyrannu adnoddau – Dylai holl aelodau'r bartneriaeth gael eu hysbysu'n glir am y dull o rannu'r adnoddau ar gyfer HCA a'r dull o wobrwyo pob partner am ei gyfraniadau at hyfforddiant. Mae'r tâl hwn yn debygol o fod yn un ariannol yn bennaf ond gallai hefyd gynnwys mathau eraill o gydnabyddiaeth: er enghraifft, gallaiartneriaid mewn ysgolion gael gwell mynediad i raglenniartneriaid eraill, i gyfleusterau neu i wasanaethau proffesiynol eraill. Po fwyaf fydd yr wybodaeth y bydd y bartneriaeth yn ei rhannu am gostau hyfforddiant, mwyaf fydd yr ymddiriedaeth sy'n debygol o ddatblygu rhwng ei haelodau.

Agweddau eraill ar y bartneriaeth – Yn aml bydd cytundebauartneriaeth yn cynnwys rhagor o wybodaeth am:

- nodau'r bartneriaeth ar gyfer pob un o'i rhaglenni HCA
- y meini prawf a'r gweithdrefnau a ddefnyddir i recriwtio, dethol a dad-ddethol aelodau o'r bartneriaeth
- a yw rhai aelodau'n aelodau 'llawn' neu'n aelodau 'cyswllt' o'r bartneriaeth – er enghraifft, lle mae rhai ysgolion neu leoliadau eraill yn dymuno cyfrannu at HCA heb ymgymryd â holl gyfrifoldebau'r bartneriaeth
- trefniadau rheoli'r bartneriaeth, gan gynnwys llinellau cyfathrebu, penderfynu ac atebolrwydd
- trefniadau ar gyfer pwyllgorau cynrychiolwyr neu grwpiau ymgynghori, neu ar gyfer clystyru ysgolion y bartneriaeth
- gweithdrefnau ar gyfer monitro ansawdd yr hyfforddiant, a darpariaethau eraill i sicrhau ansawdd yn y bartneriaeth drwyddi draw
- sut y bydd y canlyniadau o waith sicrhau ansawdd a gwerthuso allanol yn cael eu defnyddio i wella ansawdd y ddarpariaeth
- trefniadau ar gyfer adolygu a diweddarau gweithdrefnau a dogfennau'n rheolaidd.

Bydd y darparwyr yn dymuno ystyried cynnwys trefniadau yn eu cytundebauartneriaeth ar gyfer sicrhau eu bod, wrth ddethol, hyfforddi ac asesu hyfforddeion, yn hyrwyddo cyfle cyfartal ac yn osgoi gwahaniaethu, yn enwedig yng ngoleuni Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 a'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd fel y'i diwygiwyd. Rhai o'r trefniadau y gellid eu cynnwys yw camau i godi ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb; i ymdrin â materion sy'n ymwneud â chydaddoldeb a chydaddoldeb hiliol mewn modd cydlynus a chyson; ac i ddelio â digwyddiadau hiliol a chefnogi hyfforddeion sy'n dioddef oherwydd hiliaeth yn ystod eu hyfforddiant.

Cwestiynau i'w hystyried gan y darparwyr

- A yw'r cytundeb yn cynnwys popeth a ddylai?
- A yw'rartneriaid yn dal at y cytundeb yn eu gwaith?
- A oes angen inni ddiwygio'r cytundeb?
- A oes angen inni adolygu'r trefniadau ar gyfer dethol a dad-ddetholartneriaid er mwyn ystyried yr angen i gynnwys lleoliadau heblaw ysgolion?

G3.3 Partneriaeth effeithiol

Y gofyniad

Rhaid i bob darparwr sicrhau bod y bartneriaeth yn gweithio'n effeithiol a bod yr hyfforddiant wedi'i gydgyssylltu ac yn gyson, gan sicrhau dilyniant ym mhob agwedd arno.

Nod a chwmpas

Nod y Gofyniad hwn yw sicrhau y bydd y darparwyr yn cadw effeithiolrwydd eu partneriaeth dan sylw, gan ganolbwyntio'n benodol ar ei heffeithiolrwydd o ran darparu hyfforddiant. Rhaid i'r hyfforddiant fod yn gyson ac yn gydgyssylltiedig, gyda dilyniant rhwng y gwahanol leoliadau, fel bod yr holl hyfforddeion yn gallu cael cyfleoedd cyfartal i gyflawni eu potensial, ym mha le bynnag y byddant yn hyfforddi a pha bynnag lwybr y byddant yn ei ddilyn. Rhaid i'r hyfforddiant gynnig modd i ymdrin yn systematig â'r holl Safonau SAC – gan sicrhau, er enghraifft, y bydd profiad yr hyfforddeion yn y gwahanol leoliadau'n eu galluogi i ddangos eu bod yn gallu addysgu dysgwyr o wahanol gefndiroedd ar draws yr ystod oedran a gallu mewn o leiaf ddau Gyfnod Allweddol. Yn ogystal â hynny, rhaid i'r hyfforddiant roi dilyniant cynlluniedig o ran y galwadau sydd ar yr hyfforddeion wrth iddynt wneud cynnydd tuag at fodloni'r Safonau.

Mae partneriaethau'n fwyaf tebygol o weithio'n effeithiol os yw'r aelodau:

- yn meddu ar gyd-ddealltwriaeth o'r Safonau a'r Gofynion
- wedi ymrwymo i ddarparu hyfforddiant rhagorol yn y bartneriaeth drwyddi draw
- yn cydnabod ac yn parchu cyfraniadau ei gilydd
- yn dilyn y gweithdrefnau y maent wedi cytuno arnynt
- yn rhannu arferion da oddi mewn i'r bartneriaeth a'r tu allan iddi.

Cwestiynau i'w hystyried gan y darparwyr

- A yw'r holl bartneriaid yn credu bod y bartneriaeth yn gweithio'n effeithiol?
- A ymgynghorir â'r holl bartneriaid a hyfforddeion ar y modd gorau o sicrhau cysondeb, dilyniant a chydilyniant ar gyfer yr hyfforddeion?

G4: Sicrhau ansawdd

Amcan y Gofynion ar gyfer sicrhau ansawdd yw sicrhau bod y rhai sy'n darparu HCA yn creu'r modd i gael a chynnal ansawdd da. Rhaid rhoi sylw drwy'r gweithdrefnau sicrhau ansawdd i bob agwedd ar y ddarpariaeth, yn enwedig ansawdd yr hyfforddiant, yr asesu a'r rheoli.

Sicrheir ansawdd yn rhannol drwy systemau sy'n monitro ac yn gwerthuso hyfforddiant a chyflawniadau'r hyfforddeion. Agwedd hollbwysig arall ar hyn yw'r modd y defnyddir tystiolaeth o amryw o ffynonellau i bennu blaenoriaethau ar gyfer gweithredu a gosod targedau. Dylanwad mawr arall ar ansawdd yw arferion y rheolwyr: mae eu dull o ddethol a datblygu hyfforddwyr, y rhan y maent yn ei chwarae mewn cynllunio a'u gweithdrefnau ar gyfer penderfynu ar sail tystiolaeth i gyd yn agweddau ar waith y rheolwyr sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ansawdd.

G4.1 Cydymffurfio

Y gofyniad

Rhaid i bob darparwr sicrhau bod ei ddarpariaeth yn cydymffurfio â gofynion presennol Gweinidogion Cymru ar gyfer darparu cyrsiau HCA.

Nod a chwmpas

Mae'r Gofyniad hwn yn sail i'r holl Ofynion eraill. Mae'n rhan annatod o'r meini prawf ar gyfer achredu darparwyr HCA ac yn sylfaen ar gyfer eu harchwilio. Er mwyn ateb y Gofyniad, bydd yn rhaid i'r darparwyr wrth weithdrefnau sicrhau ansawdd sy'n adolygu cydymffurfiaeth yn rheolaidd.

Cwestiynau i'w hystyried gan y darparwyr

- A yw ein gweithdrefnau sicrhau ansawdd yn sicrhau ein bod yn adolygu ein cydymffurfiaeth â'r holl Ofynion yn drwyadl ac yn rheolaidd?

G4.2 Adnoddau

Y gofyniad

Rhaid i bob darparwr sicrhau bod gan hyfforddeion fynediad at y llyfrau, y TGCh a'r adnoddau eraill y mae arnynt eu hangen – a'r rheini'n berthnasol i'r ystod oedran a'r pynciau y maent yn hyfforddi ar eu cyfer – i ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau hyd at y Safonau SAC o leiaf.

Nod a chwmpas

Nod y Gofyniad hwn yw sicrhau y bydd yr hyfforddeion yn cael yr adnoddau y mae arnynt eu hangen i gyrraedd y Safonau. Rhaid i'r hyfforddeion gael mynediad hwylus at gyflenwad digonol o lyfrau perthnasol a diweddar ac adnoddau eraill; rhaid iddynt gael mynediad at gyfleusterau TGCh ar adegau rhesymol; a bydd yn rhaid cael trefniadau ymarferol eraill ar eu cyfer os nad yw'r darparwr yn cynnig mynediad uniongyrchol ei hun at yr holl adnoddau hyn.

Dylai'r bartneriaeth gyfan ystyried sut y gall pob partner gyfrannu at ddarparu adnoddau dysgu ac a oes angen chwilio y tu allan i'r bartneriaeth am gymorth. Yn achos y rhaglenni hynny lle mae'r hyfforddeion wedi'u lleoli'n bell o brif ganolfan y darparwr, mae'n bosibl y bydd y partneriaethau'n dymuno ystyried ymestyn eu defnydd o TGCh (er enghraifft, i ddosbarthu deunyddiau dysgu o bell, i alluogi hyfforddeion i gyfathrebu â'i gilydd, neu i gynnig cymorth iddynt gan diwtoriaid).

Cwestiynau i'w hystyried gan y darparwyr

- A yw'r hyfforddeion ar yr holl raglenni'n cael mynediad at yr adnoddau y mae arnynt eu hangen ar yr adegau priodol?
- A yw'r hyfforddeion yn meddu ar yr adnoddau gofynnol i'w galluogi i ymgymryd â'u profiad addysgu ymarferol mewn lleoliad ysgol bartneriaeth?
- A allem wneud mwy o ddefnydd o TGCh fel adnodd dysgu?
- A ydym yn gwneud y defnydd gorau o holl adnoddau'r bartneriaeth drwy ein hyfforddiant?
- Pa mor effeithiol yw ein hadnoddau ar gyfer adolygu a gwella'r ddarpariaeth o adnoddau dysgu?

G4.3 Safoni asesiadau hyfforddeion

Y gofyniad

Rhaid i bob darparwr sicrhau bod gweithdrefnau safoni mewnol trylwyr a gweithdrefnau safoni allanol annibynnol ar waith ar gyfer asesu pa mor ddibynadwy a chywir yw'r asesiadau.

Nod a chwmpas

Nod y Gofyniad hwn yw diogelu safon SAC yng Nghymru. Rhaid i'r asesiadau fod yn gywir ac yn ddibynadwy wrth ganfod, yn gyson dros amser, a yw hyfforddeion yn bodloni'r Safonau SAC ai peidio. Dim ond os yw hyfforddai'n bodloni'r holl Safonau y gellir dyfarnu ei fod yn bodloni'r Safonau ar gyfer ennill SAC. Gan fod safonwyr allanol yn chwarae rhan drwy sicrhau bod y Safonau'n gyson rhwng y partneriaethau ac oddi mewn iddynt, bydd y darparwyr yn dymuno sicrhau y rhoddir ystyriaeth lawn i'w barn wrth ddod i benderfyniadau ynghylch a yw hyfforddeion wedi bodloni'r Safonau.

Mae'r Gofyniad hwn yn ymwneud ag asesu yn erbyn y Safonau SAC yn unig. Mae asesu ar gyfer dyfarniad academaidd (fel BEd neu'r Dystysgrif Addysg i Raddedigion) yn fater i'r sefydliad addysg uwch sy'n gyfrifol amdano. Er hynny, gallai'r un person fod yn safonwr allanol ar gyfer SAC a hefyd yn arholwr allanol ar gyfer dyfarniad academaidd, ar yr amod ei fod yn meddu ar wybodaeth ymarferol drylwyr o'r Safonau ac ar arbenigedd o ran eu defnyddio i asesu hyfforddeion.

Safoni mewnol – Mae'r broses safoni fewnol yn darparu system lle cedwir cydbwysedd o fewn partneriaeth i sicrhau bod hyfforddeion mewn gwahanol leoliadau'n cael eu hasesu'n gyson ac yn deg.

Rhai enghreifftiau o'r gweithdrefnau y gellid eu defnyddio yw:

- cynnwys staff dau bartner o leiaf (er enghraifft sefydliad AU ac ysgol) yn y gwaith o asesu'r holl hyfforddeion
- panel safoni a fydd yn craffu'n fanwl ar waith sampl o hyfforddeion, gan gynnwys unrhyw rai y mae asesydd o'r farn eu bod yn debygol o fethu neu eu bod ar y ffin rhwng llwyddo a methu
- cydarsylwi ar waith addysgu'r hyfforddeion
- trafodaeth gan y staff perthnasol ar yr holl dystiolaeth sydd ar gael, gan gynnwys hynny a gafwyd o brofiad a chyflawniad blaenorol yr hyfforddeion, a chytundeb amodol bod yr holl Safonau SAC wedi'u bodloni, sydd i'w gadarnhau gan safonwr allanol
- trefniadau i ddefnyddio gwybodaeth a gafwyd er mwyn hybu'r broses o sicrhau ansawdd yr hyfforddiant, gan gynnwys monitro materion sy'n ymwneud â chyfle cyfartal (gweler hefyd G4.4).

Safoni allanol – Y bartneriaeth hyfforddi sy'n gyfrifol am benodi safonwyr allanol addas ar gyfer yr holl gyrsiau HCA sy'n cynnig SAC sy'n cael eu cynnal gan ddarparwyr HCA a achredir gan CCAUC. Dylai'r safonwyr allanol fod yn brofiadol o

ran asesu athrawon neu hyfforddeion, yn wybodus am y Safonau a'r Gofynion, ac yn barod i wneud gwerthusiadau ar sail tystiolaeth o'r hyfforddiant (gweler G4.4) yn ogystal â gwaith yr hyfforddeion.

Rhai o gyfrifoldebau posibl y safonwr allanol yw:

- craffu'n fanwl ar sampl o hyfforddeion, a fydd yn cynnwys trawstoriad cynrychioladol o'r hyfforddeion ynghyd â'r holl hyfforddeion y mae'r safonwyr mewnol o'r farn y gallent fethu neu eu bod ar y ffin rhwng llwyddo a methu
- arsylwi ar waith addysgu'r holl hyfforddeion yn y sampl a ddewiswyd
- arsylwi ar waith addysgu neu graffu ar waith unrhyw hyfforddeion ychwanegol nad ydynt wedi'u cynnwys yn y sampl wreiddiol
- trafod gyda staff mewnol perthnasol yr holl dystiolaeth sydd ar gael ynghylch a yw hyfforddeion penodol wedi bodloni'r Safonau SAC
- craffu ar y trefniadau sicrhau ansawdd mewnol
- llunio adroddiad sy'n cynnwys gwerthusiad o'r cryfderau a'r gwendidau yn y ddarpariaeth yr arsylwyd arni, a chysylltiad clir rhyngddo a'r Safonau a'r Gofynion (gweler G4.4).

Cwestiynau i'w hystyried gan y darparwyr

- A yw ein gweithdrefnau safoni mewnol yn sicrhau bod yr asesiadau'n gywir ac yn ddibynadwy?
- A ddylai rhagor o hyfforddwyr, neu rai gwahanol, gymryd rhan mewn safoni mewnol?
- A yw ein gweithdrefnau safoni allanol yn sicrhau bod yr asesiadau'n gyson?
- A yw'r safonwyr mewnol ac allanol yn rhoi adborth i wella'r ddarpariaeth (gweler G4.4)?

G4.4 Gwella drwy safoni

Y gofyniad

Rhaid i bob darparwr sicrhau bod materion yn ymwneud ag ansawdd a godir drwy'r trefniadau safoni mewnol ac allanol yn cael eu harchwilio a'u datrys er mwyn gwella'r hyfforddiant.

Nod a chwmpas

Yn ogystal â diogelu safon SAC, dylai'r broses safoni gynnig tystiolaeth i helpu'r darparwyr i werthuso eu perfformiad eu hunain ac i ddyfeisio cynlluniau i'w wella. Rhaid i'r darparwyr sicrhau bod y safonwyr mewnol ac allanol yn cysylltu'r cryfderau a'r gwendidau y maent yn arsylwi arnynt mewn hyfforddeion penodol â chryfderau a gwendidau posibl yn ansawdd eu hyfforddiant yn gyffredinol.

Dylent hefyd ofyn i'r safonwyr allanol wneud argymhellion penodol ar gyfer gwella. Wedyn gallant ddefnyddio'r dystiolaeth hon, ynghyd â thystiolaeth o ffynonellau eraill (fel adroddiadau arolygu, data perfformiad ac adborth gan hyfforddeion) fel sail i gynllunio camau gweithredu a phennu targedau ar gyfer gwella.

Cwestiynau i'w hystyried gan y darparwyr

- A yw'r safonwyr yn rhoi adborth defnyddiol i ni am ansawdd? Os nad ydynt, a oes angen gosod cylch gwaith mwy penodol ar eu cyfer?
- A fyddwn yn cymryd camau mewn ymateb i'r adborth?

G4.5 Gwerthuso

Y gofyniad

Rhaid i bob darparwr fonitro a gwerthuso pob agwedd ar y ddarpariaeth yn systematig er mwyn gwella ei hansawdd a sicrhau ei bod yn cydymffurfio â Gofynion cyfredol y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer darparu cyrsiau HCA. Dylai systemau fod ar waith i:

- *nodi targedau ar gyfer gwella'r ddarpariaeth*
- *adolygu'r ddarpariaeth yn erbyn y targedau hyn*
- *nodi'r camau y mae angen eu cymryd i gyflawni'r gwelliannau*
- *sicrhau bod y camau yn cael eu cymryd, a'u bod yn arwain at welliant.*

Nod a chwmpas

Mae'r Gofyniad hwn yn diffinio'r nodweddion hanfodol a geir mewn system sicrhau ansawdd effeithiol. Er mwyn sicrhau bod eu system yn ateb y Gofyniad hwn, mae'n bosibl y bydd y darparwyr yn ei chael yn fuddiol diffinio'n glir y cyfrifoldeb dros sicrhau ansawdd o fewn y bartneriaeth a datblygu'r arfer o hunanwerthuso proffesiynol fel y bydd holl staff y bartneriaeth yn ceisio gwella ansawdd yr hyfforddiant, yr asesu a'r rheoli. Dylent hefyd ddadansoddi a defnyddio tystiolaeth a geir o amryw o ffynonellau, gan gynnwys yr hyfforddeion sy'n dilyn eu rhaglenni, eu cyn-hyfforddeion, cyflogwyr, safonwyr allanol, Estyn a Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau gwelliant.

Bydd yn rhaid i'r darparwyr roi gweithdrefnau systematig ar waith sy'n cysylltu'r canlyniadau a geir yn sgil gwerthuso â'r broses o osod targedau ar gyfer gwella, a defnyddio'r gwaith o osod targedau i ddatblygu cynlluniau ar gyfer gwella sy'n cynnwys y cyfrifoldebau a ddynodwyd, amserlen benodol a gweithdrefnau monitro a gwerthuso. Byddant yn gwerthuso effaith y cynlluniau ar gyfer gwella a mentrau eraill yn erbyn y targedau gwreiddiol, ac yn meddu ar fodd i ganfod unrhyw wendidau ac i weithredu'n brydlon i wella'r ddarpariaeth os oes angen cymryd camau brys.

Bydd y darparwyr yn ymwybodol o'r ffaith bod Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 yn rhoi sefydliadau dan ddyletswydd i fonitro'r myfyrwyr a dderbynnir a'u cynnydd yn ôl grwpiau hiliol a dyletswydd i asesu effaith polisiau ar staff a myfyrwyr yn ôl grwpiau hiliol. Mae Cod Ymarfer y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn argymhell y dylid gwneud hyn drwy'r prosesau presennol. Oherwydd hynny, bydd y darparwyr yn dymuno sicrhau bod eu gweithdrefnau sicrhau ansawdd yn cynnwys un ar gyfer casglu a defnyddio data monitro ethnig ac un ar gyfer asesu effaith polisiau ar gydraddoldeb hiliol.

Cwestiynau i'w hystyried gan y darparwyr

- A oes gwybodaeth ar gael i'n helpu i ganfod targedau ar gyfer gwella?
- A ydym yn gweithredu ar sail hynny?
- A yw'r camau a gymerwn yn arwain at welliant?

G4.6 Meincnodi

Y gofyniad

Rhaid i bob hyfforddwr feincnodi ei berfformiad dros gyfnod o amser os yw'n darparu hyfforddiant yn rheolaidd, a chymharu ei berfformiad â darparwyr eraill, gan ddefnyddio tystiolaeth allanol a mewnol i bennu targedau a chynllunio gwelliannau.

Nod a chwmpas

Nod y Gofyniad hwn yw gwella'r hyfforddiant a gynigir gan yr holl ddarparwyr, o ran ei ansawdd a'i gysondeb, drwy fynnu y bydd y rhai sy'n darparu hyfforddiant yn rheolaidd yn cymharu eu perfformiad ag unrhyw ddarparwyr eraill sydd mewn amgylchiadau tebyg. Er enghraifft, gallai'r darparwyr ddefnyddio eu data eu hunain i ddadansoddi eu perfformiad eu hunain a'i gymharu â pherfformiad darparwyr eraill er mwyn canfod sut y gellid ei wella. Gallent ddefnyddio data o ffynonellau allanol, fel y rhai a geir o'r proffiliau perfformiad, i gymharu eu perfformiad ag unrhyw ddarparwyr tebyg. Gallent hefyd ddadansoddi tystiolaeth o arferion llwyddiannus, fel y rhai a nodir yn adroddiadau archwilio Estyn, ac asesu a allent wella eu harferion a'u perfformiad eu hunain drwy fabwysiadu arferion o'r fath. Gallent ddefnyddio data demograffig, er enghraifft, i osod ac adolygu targedau ar gyfer cyfranogiad grwpiau ethnig lleiafrifol yn y rhaglen HCA.

Cwestiynau i'w hystyried gan y darparwyr

- A ydym yn gwneud defnydd da o ddata mewnol ac allanol wrth feincnodi?
- A oes arferion llwyddiannus mewn mannau eraill a allai ein helpu i bennu targedau ar gyfer gwella?